Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd

Gorffennaf 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd

Gorffennaf 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Mike Hedges AC (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Gareth Bennett AC
UKIP Cymru
Canol De Cymru

Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd

Huw Irranca-Davies AC
Llafur Cymru
Ogwr

Siân Gwenllian AC
Plaid Cymru
Arfon

David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Simon Thomas AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Mark Reckless AC (Cadeirydd)
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon

Cynnwys

Argymhellion 5
Rhagair y Cadeirydd 8
Cyflwyniad 9
01. Creu coetiroedd newydd ac ailstocio 11
02. Ymateb i newid hinsawdd 21
03. Coetiroedd i bobl 24
04. Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig 32
05. Ansawdd amgylcheddol 37
06. Rhoi Coetiroedd i Gymru ar waith yn y dyfodol 44
Atodiad A – Tystiolaeth ysgrifenedig 50
Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor 51

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adnewyddu ei strategaeth coetir gyda'r nod o gynyddu'r cyfraddau plannu yn sylweddol. Rhaid i'r strategaeth ddiwygiedig gynnwys targedau tymor hir ar gyfer gorchudd coetir a rhaid iddi gynnwys coedwigaeth fasnachol..... Tudalen 20

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynyddu plannu, yn benodol trwy:

- **Alinio'r prosesau rheoleiddio ac ariannu, a darparu arweiniad a chymorth ychwanegol i ymgeiswyr.**
- **Archwilio'r potensial i fabwysiadu rhagdybiaeth y caiff ceisiadau eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map Cyfleoedd Coetir fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd.**
- **Gwneud y Map Cyfleoedd Coetir yn haws ei ddefnyddio i ystod o wahanol grwpiau o ddefnyddwyr, a'i gysylltu â'r system cynllunio defnydd tir. .....Tudalen 20**

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio coed a choetiroedd fel ateb sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â llifogydd, a hwyluso ehangu'r Cod Carbon Coetiroedd. ..... Tudalen 23

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau isafswm o 20% o orchudd canopi coed trefol, gan fynd i'r afael â hynny drwy Gynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal. ..... Tudalen 31

Argymhelliad 5. Gall coetiroedd fod yn offeryn effeithiol ar gyfer adfywio ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru harneisio hyn ac, fel man cychwyn, dylai:

- **Cynyddu'r gefnogaeth i grwpiau coetir cymunedol.**
- **Asesu'r potensial i ddatblygu Cwmni Coedwig Genedlaethol i helpu i adfywio cymoedd y De.**
- **Sicrhau bod addysg coetir yn cael ei hymgorffori mewn polisïau addysg. .....Tudalen 32**

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru ehangu mynediad i goetiroedd cyhoeddus a'i reoli'n well, yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried opsiynau i adennill costau oddi wrth grwpiau defnyddwyr sy'n ymgymryd â rhai gweithgareddau hamdden penodol yn y coetiroedd y mae'n eu rheoli. ..... Tudalen 31

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'i hamserlen ar gyfer dod â chynigion gerbron i ddiwygio mynediad. ..... Tudalen 31

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar y sector coedwigaeth fasnachol, yn arbennig trwy:

- **Hwyluso creu coetiroedd conwydd a gweithrediadau masnachol ar dir cyhoeddus a phreifat.**
- **Hyrwyddo i'r gymuned amaethyddol fanteision masnachol a manteision eraill plannu coed ar dir amaethyddol, a galluogi ffermwyr i wneud hyn drwy daliadau grant ychwanegol, syml a hyblyg.**
- **Darparu a hyrwyddo hyfforddiant mewn coedwigaeth, rheoli coetiroedd a chynllunio coetiroedd. ..... Tudalen 36**

Argymhelliad 9. Dylai'r potensial ar gyfer twf yn y sector coedwigaeth fasnachol gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, dylai:

- **Cytuno gyda'r sector coedwigaeth ar dargedau uchelgeisiol er mwyn i Gymru ddod yn gynyddol hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren, ac yn llai dibynnol ar fewnforion.**
- **Dylai ystyried newid y rheoliadau adeiladu i hyrwyddo'r defnydd o bren ym maes adeiladu. ..... Tudalen 36**

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir a sicrhau bod y plannu'n bodloni gofynion Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU. ..... Tudalen 43

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ei strategaeth o ran iechyd coed yn dangos y gwersi a ddysgwyd o'r achosion o Glefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd. ..... Tudalen 43

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cael ei rhoi ar waith trwy:

- **Mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag creu coetiroedd fel mater o frys.**
- **Adolygu'r strategaeth erbyn dechrau 2018, a nodi sut y bydd hi'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, ac yn cael ei chefnogi ganddyn nhw.**
- **Gwella tryloywder a grym y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd i yrru'r strategaeth ymlaen. ..... Tudalen 49**

Argymhelliad 13. Fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y drefn ariannu yn y dyfodol yn cael ei seilio ar ganlyniadau cynaliadwy. Gallai'r drefn hon gael ei chefnogi trwy ddulliau arloesol megis Taliadau am Wasanaethau Ecosystem a chronfeydd pensiwn yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd. ..... Tudalen 49

Rhagair y Cadeirydd

Mae coed, coetiroedd a choedwigoedd Cymru yn darparu ystod eang o fuddion i'n dinasyddion ac i'n heconomi.

Maent yn arwain at well iechyd a lles drwy gyfleoedd i gael ymarfer corff iach ac ymlacio. Maent hefyd yn gallu adfywio'n tirweddau a gwneud ein trefi'n fwy deniadol. Gall coetiroedd a choedwigoedd gael eu defnyddio i gryfhau'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, drwy liniaru amodau tywydd eithafol fel llifogydd, a chael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer. Maen nhw hefyd yn gwella ansawdd yr aer, dŵr a phridd, ac yn cynyddu bioamrywiaeth. Mae coetiroedd a choedwigaeth felly mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan y sector coedwigaeth fasnachol botensial sylweddol i gyfrannu i ddatblygiad economaidd Cymru. Mae'r ymgyrch am fwy o gynaliadwyedd ym maes adeiladu a lleihau olion traed carbon yn y DU a'r tu hwnt yn golygu bod y galw am bren sydd wedi'i dyfu yma yn debygol o godi'n sylweddol. Mae gan Gymru gyfle gwych i ddiwallu llawer mwy o'r galw hwn, ac i ddod yn fwyfwy hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren ac yn llai dibynnol ar fewnforio.

Fodd bynnag, mae'r coetiroedd sy'n cael eu creu'n flynyddol yng Nghymru ymhell y tu ôl i'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010), ac mae hyn yn tanseilio'r gwaith o weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Coetiroedd i Gymru', yn fawr.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw, fel mater o frys, i'r rhwystrau rheoleiddiol, ariannol, biwrocrataidd a diwylliannol rhag creu coetiroedd, gan roi blaenoriaeth arbennig i goedwigoedd masnachol a choed mewn ardaloedd trefol. Bydd angen atebion arloesol i wneud hynny, megis ariannu ar sail cyflawni buddion cyhoeddus, a datblygu polisi rheoli tir integredig a chynaliadwy.

Rwy'n ddiolchgar i'r rhai a gyfrannodd i'n hymchwiliad ac a groesawodd ein hymweliadau, yn cynnwys coedwigwyr masnachol, undebau amaethyddol, grwpiau gwarchod yr amgylchedd, grwpiau cymunedol a hamdden, ac academyddion, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru. Os gweithiwn ni i gyd gyda'n gilydd, rwy'n hyderus y gall Cymru gael adnodd coetir i fod yn falch ohono.

Mike Hedges AC
Cadeirydd

Cyflwyniad

Coetiroedd i Gymru (2009) yw strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed. Caiff y strategaeth ei rhoi ar waith drwy gynlluniau gweithredu pum mlynedd; cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn 2010, a'r ail gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae'r cynllun gweithredu presennol[1] yn para tan 31 Mawrth 2020.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i ba mor dda y mae Coetiroedd i Gymru yn cael ei gyflawni.[2] Cynhaliwyd yr ymchwiliad o fis Chwefror tan fis Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau, a'n gweledigaeth o ran datblygu coetiroedd Cymru.

Cylch gorchwyl

1. Nod yr ymchwiliad yw asesu i ba raddau y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cyflawni yn erbyn ei phedair thema strategol:

- Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd – ymdopi â newid yn yr hinsawdd a helpu i leihau'n hôl-troed carbon;
- Coetiroedd i bobl – gwasanaethu anghenion lleol o ran iechyd, addysg a swyddi;
- Sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig – diwydiannau arloesol a medrus yn creu cynnyrch adnewyddadwy o Gymru; ac
- Ansawdd yr amgylchedd – gwneud cyfraniad pwysig i fioamrywiaeth, tirweddau a threftadaeth, a lleihau pwysau amgylcheddol eraill.

2. Ymchwiliodd yr ymchwiliad hefyd i:

- Sut y mae'r strategaeth yn cyfrannu at gyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[3] a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;[4]
- Sut y bydd y strategaeth yn cael ei hystyried yng nghyd-destun polisïau, cynlluniau a datganiadau sydd wrthi'n cael eu datblygu (er enghraifft y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, Cynlluniau Bioamrywiaeth a Datganiadau Ardal); a'r
- Heriau a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Y camau gweithredu

- Gofynasom am dystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r themâu hyn, a derbyniwyd 35 o ymatebion. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad A.
- Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gydag amrywiaeth o randdeiliaid masnachol, amgylcheddol ac academaidd, Adnoddau Naturiol Cymru, a Llywodraeth Cymru. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth lafar yn Atodiad B.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru: Cynllun Gweithredu, 2015-2020
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Polisi coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru, (Chwefror 2017)
[3] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid ym mis Mehefin 2017 i drafod materion yn ymwneud â mynediad, hamdden a chyfranogiad cymunedol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gweithdy yn Atodiad B.
- Ymwelsom â choetiroedd yng Nghasnewydd, Dinas Powys, Crymlyn, Merthyr, Trecelyn, Pwllheli a Maesteg i ddysgu mwy am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu perchnogion a rheolwyr coetiroedd o ran coedwigaeth fasnachol, cadwraeth, a mynediad cymunedol a hamdden. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ymweliadau'r Pwyllgor yn Atodiad B.

01. Creu coetiroedd newydd ac ailstocio

Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at y gwaith o gyflawni targedau Llywodraeth Cymru o ran plannu coed, a elwir hefyd yn goedwigo. Er 2010, mae'r cyfraddau plannu blynyddol, ar gyfartaledd, wedi bod oddeutu un rhan o ddeg o'r gyfradd darged, ac ychydig iawn o blannu conwydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn. Rheoleiddiol ac ariannol yw'r prif rwystrau rhag creu coetiroedd, ac mae canfyddiad ymhlith y rhai sy'n buddsoddi mewn coetiroedd fod Cymru ar gau i fusnes.

Creu coetiroedd yn y DU

3. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn adrodd yn flynyddol ar blannu coetiroedd ac ailstocio yn y DU. Mae adroddiad 2016[5] yn dangos bod yr arwynebedd o goetir yn y DU, ar 31 Mawrth 2016, yn 3.16 miliwn ha. Mae hyn yn cynrychioli 13% o'r holl arwynebedd tir yn y DU: 10% yn Lloegr, 15% yng Nghymru, 18% yn yr Alban ac 8% yng Ngogledd Iwerddon.[6]

4. Mae'r adroddiad yn dangos y bu cynnydd o tua 240,000 hectar yn y tir sydd dan goed er 1998, sef cynnydd o 8% dros y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau plannu coed newydd wedi gostwng 82% rhwng 1988-89 a 2009-10, yn rhannol o ganlyniad i newidiadau anffafriol o ran y buddion treth sy'n deillio o fod yn berchnogion coedwigoedd yn y DU, a gyflwynwyd yn Neddf Cyllid 1988.

5. Mae'r lefelau plannu yn gwella eto ar ôl 2010, gyda'r arwynebedd dan goed newydd eu plannu yn y DU yn 2014-15 tua dwywaith gymaint yr hyn ydoedd yn 2009-10. Fel y dangosir yn y siart isod, i'r Alban y priodolir y cynnydd hwn yn bennaf. Yn ôl yr adroddiad, y rheswm am hynny yw bod yr Alban wedi cyflwyno Contractau Datblygu Gwledig.[7] Gostyngodd y gwaith plannu newydd yn y DU i'w lefel isaf eto yn 2015-16. Dim ond 5,500 hectar a blannwyd, ac mae'r adroddiad yn awgrymu yr effeithiwyd ar hynny, fwy na thebyg, gan newidiadau diweddar i'r cynlluniau grant ledled y DU.[8]



Ffynhonnell : Y Comisiwn Coedwigaeth, Mehefin 2016

[5] Y Comisiwn Coedwigaeth, Woodland Area, Planting and Restocking: 2016 Edition
[6] Y Comisiwn Coedwigaeth, Woodland Area, Planting and Restocking: 2016 Edition
[7] Nod y Contractau Datblygu Gwledig oedd sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wedi'u targedu ac roeddent yn agored i ffermwyr, tyddynwyr, rheolwyr coedwigoedd ac ystadau a grwpiau cymunedol. Ychydig a fanteisiodd ar y cynllun i ddechrau, ond erbyn 2012 roedd y coetiroedd a oedd yn cael eu plannu bron â chyrraedd y targed o 10,000 hectar y flwyddyn, gyda thua 75 y cant yn defnyddio'r opsiwn i blannu coetiroedd brodorol.
[8] Y Comisiwn Coedwigaeth, Woodland Area, Planting and Restocking: 2016 Edition

6. Mae ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth o 2016[9] yn dangos mai dim ond yr Alban sy'n parhau i blannu niferoedd sylweddol o goed conwydd, a bod nifer y coed llydanddail sy'n cael eu plannu wedi gostwng yn gyflym ledled y DU er 2013-14. Prin fod unrhyw blannu'n digwydd bob blwyddyn yng Nghymru a Gogledd Iwerddon erbyn hyn.

Arwynebedd tir dan goed conwydd a llydanddail newydd fesul gwlad, 2011 i 2016 (000 hectar)

Gwlad	Math o blannu	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
Lloegr	Conwydd	0	0	0	0.1	0
	Llydanddail	2.7	2.6	3.3	2.3	0.7
Cymru	Conwydd	0.1	0.1	0.1	0	0
	Llydanddail	0.6	0.8	0.8	0.1	0.1
Yr Alban	Conwydd	3.3	1.7	2	2.5	1.9
	Llydanddail	5.7	5.3	6.3	5.1	2.7
Gogledd Iwerddon	Conwydd	0	0	0	0	0
	Llydanddail	0.3	0.2	0.3	0.2	0.1
Y DU	Conwydd	3.5	1.9	2.2	2.6	1.9
	Llydanddail	9.3	8.9	10.7	7.7	3.6

Ffynhonnell: Y Comisiwn Coedwigaeth, Medi 2016

Coedwigo ar draws Ewrop

Mae Iwerddon, Moldofa a Ffrainc yn dair gwlad heb lawer o goed (o'u cymharu â'r cyfartaledd Ewropeaidd) sydd wedi gweld cynnydd mawr yn y gorchudd coetir er 1990 (gyda chynnydd o 62%, 28% a 18% yn y drefn honno). Yn Iwerddon cafodd hyn ei yrru gan strategaeth uchelgeisiol y Llywodraeth, Growing for the Future,[10] a oedd yn gofyn am lefelau coedwigo o 25,000 ha y flwyddyn hyd at y mileniwm, ac 20,000 ha y flwyddyn rhwng 2001 a 2030. Mae Llywodraeth Ffrainc wedi cefnogi coedwigo conwydd ar dir a arferai fod yn dir amaethyddol, gyda mentrau diweddar yn canolbwyntio ar gynyddu cynaeafu pren a datblygu'r diwydiannau prosesu pren a biomas coedwigoedd.

Diffyg creu coetiroedd newydd ac ailstocio

7. Y prif fater a godwyd gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor oedd y diffyg creu coetiroedd newydd yng Nghymru. Roedd Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010), gan Lywodraeth Cymru, yn galw am:

[9] Ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth o 2016
[10] Growing for the Future

> "ehangu coetiroedd Cymru trwy gynyddu'r gyfradd plannu gyffredin o thua 500 hectar i 5,000 hectar y flwyddyn yn gyson dros 20 mlynedd."[11]

8. Mae hyn yn golygu creu 100,000 hectar o goetiroedd newydd rhwng 2010 a 2030. Mae Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru (2015-2020), fodd bynnag, yn nodi mai dim ond 3,203 hectar o goed newydd a blannwyd rhwng 2010 a 2015. Mae'r diffyg yn erbyn y targed yn cael ei ddangos yn y siart isod.



Ffynhonnell: Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2015

9. Nododd Confor:

> "Woodland creation in Wales has been a catastrophic failure. Wales needs to plant 31,800ha of the 35,000ha which should by now have been planted, simply to get back on track… The disastrous failure of WG since 2010 to meet agreed tree-planting targets puts the economic, social and environmental sustainability of our countryside at risk."[12]

Rhwystrau rhag plannu

10. Datgelodd y rhanddeiliaid nifer o wahanol rwystrau rhag creu coetiroedd. Ar gyfer y sector coedwigaeth fasnachol, gorfodi'r rheoliadau'n rhy llym yw'r rhwystr mwyaf rhag creu coetiroedd newydd yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd David Edwards (Tilhill Forestry) wrth y Pwyllgor:

> "…there's much more of a will in Scotland to enable planting, whereas in Wales it's much more about reasons not to plant."[13]

11. Ychwanegodd Martin Bishop (Confor) fod llawer o'r ddeddfwriaeth a'r rheoleiddio yn ymwneud â chreu coetiroedd newydd (gan gynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol) yn ei gwneud yn ofynnol i'r plannwr ddangos na fydd y gweithgaredd yn cael "effaith arwyddocaol". Roedd yn credu bod hyn yn cael ei ddehongli fel cael "dim effaith".[14]

---

[11] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig Confor
[13] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 235
[14] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 239

12. Roedd rhai o'r farn fod cynlluniau coetiroedd Glastir yn rhwystr yn hytrach na'u bod yn galluogi creu coetiroedd. Undebau'r ffermwyr oedd yn fwyaf beirniadol o Glastir. Roeddent yn credu bod y cynlluniau presennol yn rhy gymhleth a'u bod felly'n atal ffermwyr, a allai fod â diddordeb fel arall mewn creu coetiroedd newydd er mwyn ychwanegu at eu hincwm, rhag ymuno â'r cynlluniau. Mae canlyniadau o arolwg 2015 Llywodraeth Cymru o agweddau ffermwyr tuag at grantiau Coetiroedd Glastir[15] yn cefnogi hyn.

13. Ar ben hynny, dywedodd ymatebwyr fod cefnogaeth ariannol ar gyfer creu coetiroedd newydd yng Nghymru yn cael ei gyfeirio tuag at greu coetiroedd bychain, brodorol yn bennaf ar ffermydd. Ychwanegodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) hyn am ei aelodau:

> "... they will have reservations on planting on the most productive land as once planted [this land] will be lost permanently to production."[16]

Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol

14. Mae Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999,[17] yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried a fydd prosiectau coedwigaeth arfaethedig (gan gynnwys coedwigo, datgoedwigo, ffyrdd coedwig a chwareli coedwig) yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Os felly, rhaid gwneud cais am ganiatâd, a rhaid i'r cais hwnnw gynnwys Datganiad Amgylcheddol.

15. Tua diwedd 2016, arweiniodd Defra ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol[18] ar ei rhan ei hun a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig. Nod y newidiadau arfaethedig oedd lleihau'r baich ar ymgeiswyr, gyda'r nod o annog cynigion mwy uchelgeisiol ar gyfer creu coetiroedd. Un o'r newidiadau arfaethedig oedd cynyddu'r trothwy i asesiadau gorfodol o'r effaith amgylcheddol mewn ardaloedd 'nad ydynt yn sensitif' yng Nghymru o 5 hectar i naill ai 20 hectar neu 50 hectar. Roedd 95 i gyd o'r ymatebion yn ymdrin â'r mater hwn. Nid yw 80% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnydd yn y trothwy ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif oherwydd y potensial i achosi niwed amgylcheddol.

16. Daeth y Rheoliadau diwygiedig i rym ar 16 Mai 2017, ond nid oeddynt yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i'r trothwyon a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad. Mewn datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, eglurodd:

> "... nid oes tystiolaeth i'r trothwy presennol fod yn rhwystr i gynyddu plannu coetiroedd newydd yng Nghymru."[19]

17. Cytunai Jonathan Cryer (RSPB) ac awgrymodd, yn lle hynny, mai am resymau ariannol nad yw prosiectau wedi mynd rhagddynt.[20] Dywedodd Dr Dauncey wrth y Pwyllgor, fodd bynnag, fod gofynion yr Asesiadau yn amlwg yn rhywbeth sy'n llestair i bobl oherwydd y baich biwrocrataidd.[21]

---

[15] Llywodraeth Cymru, **Arolwg Manteisio ar Elfen Coetir Glastir**, 2015
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[17] **Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999**
[18] **Asesu Effeithiau Amgylcheddol – Ymgynghoriad Technegol ar y Cyd (Rhagfyr 2016 – Ionawr 2017)**
[19] **Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**, 7 Mehefin 2017
[20] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 64
[21] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 234

18. Roedd cynrychiolwyr y sector coedwigaeth fasnachol yn cytuno. Dywedodd David Edwards (Tilhill Forestry) fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynyddu'r trothwy ar gyfer Asesiadau gorfodol yn siomedig[22] a bod mynd drwy'r broses lawn yn gallu costio rhwng £150,000 a £300,000:

> "Nobody is prepared to spend that sort of money when they've got no certainty of what they're going to get out of it at the end. And that's one of the big differences between Scotland and Wales currently."[23]

Y goblygiadau ar gyfer coedwigaeth fasnachol

19. Mae'r sector coedwigaeth fasnachol yn pryderu y bydd y cyfraddau plannu ac ailstocio isel yn lleihau'r cyflenwad o bren masnachol yn y dyfodol, a bydd hynny'n effeithio ar hyfywedd tymor hir y sector yng Nghymru. Dywed BSW Timber y bydd ei gyflenwad o goed pren meddal yn dechrau lleihau'n ddramatig ymhen deng mlynedd.[24]

20. Dim ond 300 ha o goed conwydd masnachol sydd wedi cael eu plannu er 2010, a 700 ha er 2000. Dywedodd Tillhill Forestry, Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU a'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd fod y sefyllfa'n gwaethygu oherwydd cyfraddau isel o ailstocio coed conwydd masnachol ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

21. Mae'r siart[25] isod yn amlygu maint y gostyngiad o ran plannu conwydd. Mae llai o gonwydd wedi'u plannu'n gyson er 1992 na'r arwynebedd a blennir â choed llydanddail.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016

22. Mae Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU a BSW Timber yn cymharu Cymru a'r Alban, lle maent yn dweud bod y targed ar gyfer creu coetiroedd wedi'i gynyddu o 10,000 hectar i 15,000 hectar y flwyddyn erbyn 2025, gyda ffocws ar gnydau coed masnachol i gynnal y sector prosesu.

23. Dywedodd Hamish MacLeod (BSW Timber) fod y gwaith o greu coetiroedd yn yr Alban wedi dechrau cwrdd â tharged Llywodraeth yr Alban yn ddiweddar, gan ysgogi hyder y bydd y gostyngiad yn y cyflenwad coed yn cael ei liniaru yn y pen draw. Nid oedd hyder o'r fath yng Nghymru. Ychwanegodd David Edwards (Tilhill Forestry):

---

[22] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 307
[23] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 264
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig BSW Timber
[25] Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-2016

> "…large-scale investors have already taken the view that Wales is closed for business for woodland creation and they've gone to Scotland."[26]

Atebion posibl

24. Awgrymodd Confor nifer o gamau i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag plannu, gan gynnwys:

> "a. Protocol ar gyfer ymgyngoreion, y rheoleiddiwr, a LlC wrth iddynt ymateb i gynlluniau creu a rheoli coetiroedd. Byddai hyn yn cynnwys terfyn amser a fyddai'n golygu, os na fydd ymateb wedi dod i law erbyn y dyddiad hwnnw, y bydd hynny'n cael ei ddehongli fel caniatâd, a chanllawiau ynglŷn â beichiau rhesymol ar ymgeiswyr.
>
> b. Gwell canllawiau, ac arweiniad, ynglŷn ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.
>
> c. Cynllun strategol i nodi ardaloedd nad oes dadlau yn eu cylch a chynlluniau carlam i greu coetiroedd gyda rhagdybiaeth o blaid creu coetiroedd a choedwigaeth mewn rhai ardaloedd.
>
> d. Canllawiau cliriach i swyddogion coetir er mwyn iddynt wneud penderfyniadau cymesur a chytbwys."[27]

25. Gwnaeth Prifysgol Bangor awgrymiadau tebyg, er enghraifft:

> There is a need for more objective appraisal of which areas of land are most suited for each purpose, and therefore where in the Welsh landscape there should be a presumption in favour of woodland establishment that would not be over-ridden by narrower restrictions.[28]

26. Mae Map Cyfleoedd Coetir Glastir a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru[29] yn gwneud rhywfaint i gyflawni hyn. Mae'n dangos yr ardaloedd o Gymru sy'n fwyaf addas ar gyfer creu coetiroedd newydd, yn seiliedig ar ddata a nodwyd er mwyn cyflawni gofynion Glastir cystal ag sy'n bosibl.

27. Dywedodd David Edwards (Tilhill Forestry) a Martin Bishop (Confor) fod Map Cyfleoedd Coetir Glastir yn ddechrau da, ond y dylai gynnwys mwy o resymau i blannu coed, yn hytrach na rhesymau i beidio â phlannu coed. Fodd bynnag, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru, yr NFU a'r RSPB fod ansawdd y data sylfaenol yn cyfyngu ar y map.

Sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru

28. Dyma a ddywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran y gweithredu yn erbyn y targed plannu

> "…[it] has seen little progress and requires radical change in the level of [financial] support available including an enabling approach to regulation."[30]

---

[26] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 311
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig Confor
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Bangor
[29] Map Cyfleoedd Coetir Glastir
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

29. Credai fod y diffyg blannu conwydd yn peri risg o ran y cyflenwad pren, swyddi a thwf y diwydiant coedwigaeth.[31]

30. O ran y rhwystr rheoleiddio, dywedodd Michelle van-Velzen (CNC) y gellid gwneud gwelliannau, ond fod rheoleiddio o ran defnydd tir yn gymhleth ac yn hynod neilltuol i safleoedd penodol.[32] Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau cynnydd yn y trothwy ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol i 20 ha (fel y mae yn awr yn Lloegr), ond pwysleisiodd y dylid gwrthbwyso creu coetiroedd yn erbyn gwarchod yr amgylchedd.

31. Nododd Michele van Velzen-(CNC) fod y grantiau a'r rheoleiddio, a'r wybodaeth a'r cyngor, yn llawer agosach yn yr Alban a Lloegr. Fe'u gwneir o un lle.[33] Yng Nghymru, rhaid i ymgeiswyr ddelio â thri sefydliad gwahanol. Dywedodd Peter Garson (CNC):

> "It's about how we align the regulatory processes with the grant-aid process. At the moment, it can be difficult for people to align their applications, get them through regulation and then have their grant application approved in time, and then implement their planting scheme."[34]

32. O ran cyllid, dywedodd Peter Garson (CNC) na fyddai'r dyraniadau cyllideb o fewn Glastir yn ddigon ynddynt eu hunain i gyrraedd y targedau.[35] Ar ben hynny nid yw cynlluniau Glastir yn ddeniadol i ymgeiswyr gan eu bod yn tueddu i fod yn eithaf rhagnodol, ac nid ydynt yn rhoi llawer o le i ymgeiswyr ddylunio coetir sy'n diwallu eu hanghenion nhw.[36] Ychwanegodd Michelle van-Velzen (CNC) fod y cymhellion ariannol yn fwy yn yr Alban, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau pren meddal masnachol.[37]

33. Er gwaethaf hyn, dywedodd Michelle van-Velzen (CNC) fod cynnydd wedi'i wneud yn ddiweddar. Mae mwy o geisiadau nag a ellir eu derbyn i gynllun Creu Coetiroedd Glastir am y tro cyntaf ers amser hir, ac mae hi'n disgwyl i gyfraddau plannu 2016-2018 (tua 1,800 ha) fod lawer yn uwch na'r hyn a blannwyd yn y blynyddoedd blaenorol.[38] Roedd y sefyllfa'n wahanol ar dir sector cyhoeddus, fodd bynnag. Tra mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailstocio coetiroedd cymysg ar dir Llywodraeth Cymru (a thrwy hynny yn graddol leihau cyfran y coetiroedd conifferaidd), nid yw'n plannu coetiroedd newydd.

34. O ran Map Cyfleoedd Coetir Glastir, oherwydd y cymysgu cyfleoedd a chyfyngiadau, awgrymodd Michelle van-Velzen (CNC):

> "… it's not necessarily that useful for the customer at the other end, trying to have an interface into that scheme. I think that there's more to do between Welsh Government and us to provide more spatial information that's much more user-friendly."[39]

---

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[32] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 22
[33] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 89
[34] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 87
[35] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 85
[36] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 40
[37] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 93
[38] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 91
[39] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 49

35. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod gwelliannau i'r map ar y gweill, ond fod cyfyngiadau ariannol ac argaeledd data cyfredol, ar wahanol raddfeydd, yn cyfyngu arnynt.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

36. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y gall fod yn anodd dod o hyd i'r lle iawn ar gyfer coetiroedd newydd a bod y broses bresennol er cael caniatâd i blannu coetiroedd yn gallu bod yn rhwystr rhag creu coetiroedd. Dywedodd hyn:

> "Raising the level of ambition in respect of tree planting in Wales is likely to require additional funding as well as further examination of regulatory/policy issues to ensure we can deliver our objectives."[40]

37. Dylai'r Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth[41] (a ariennir trwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020) fod o gymorth i fynd i'r afael â rhwystrau rhag plannu coetiroedd newydd. Mae'r cynllun yn ariannu dull gweithredu o lawr gwlad i fyny lle mae rheolwyr coetiroedd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar ble gall coetir gael ei greu.

38. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i wella'r ffordd y mae'r broses Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gweithredu:

> "This will include assessing consistency between the application of the EIA regime for forestry and agriculture and testing new approaches to protecting important habitats while also allowing for an increase in the amount of new woodland creation."[42]

39. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er nad oedd yn credu bod yr Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn fwy beichus yng Nghymru nag yn unman arall,[43] fod angen gwella'r ffordd y caiff y rheoliadau eu gweithredu. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cwrdd â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth fasnachol yn ddiweddar i drafod y rhwystrau rheoleiddiol gwirioneddol a chanfyddedig rhag creu coetiroedd. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi gofyn i'r swyddogion ystyried gweithredu arloesol o ran y rheoleiddio[44] ac wedi gofyn iddynt adrodd yn gynnar yn 2018.

40. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai un o'r ystyriaethau o ran plannu ar dir amaethyddol yw bod y buddsoddiad yn un tymor hir. Mae angen felly i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd arloesol i ffermwyr gael incwm rheolaidd o goetir.[45] Gallai hyn gynnwys defnyddio arian loteri, trethiant a chredydau carbon y telir amdanynt gan fusnesau. Ychwanegodd y gallai rhyw fath o Daliadau am Wasanaethau Ecosystem hefyd fod yn addas i sicrhau buddion dŵr a bioamrywiaeth o goetiroedd.

41. O ran y Map Cyfleoedd Coetir, nid oedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymwybodol fod rhanddeiliaid yn ei ystyried yn rhwystr rhag plannu, ond cytunodd i ystyried y mater hwn. Yn ei barn hi mae'r map yn effeithiol am y rheswm hwn:

> "...what it does is highlight... where the most appropriate areas for woodland creation are right across Wales. If it's viewed at a strategic level, I think it

---

[40] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[41] Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth
[42] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[43] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 205
[44] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 208
[45] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 220

enables our priorities then to be recognised, for instance where we need more trees in relation to air pollution… I think it's a decision support tool, not a decision-making tool, if you like, but I do think it's very beneficial."[46]

Ein barn ni

Diffyg creu coetiroedd newydd

Er 2010, dim ond un rhan o ddeg o'i tharged o 35,000 ha y mae Cymru wedi llwyddo i'w blannu, gyda 90% o'r coetir hwn yn llydanddail, ac mae'r cyfraddau plannu er 2014 wedi bod yn arbennig o wael.

Rydym yn falch y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y targed o greu 100,000 ha newydd o goetiroedd rhwng 2010 a 2030, ac y bydd yn adnewyddu strategaeth Coetiroedd i Gymru. Fodd bynnag, mae bwlch enfawr rhwng dyhead a realiti, ac mae angen newid sylfaenol wrth ymdrin â chreu coetiroedd yng Nghymru. Nid yw'n glir sut mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu mynd i'r afael â hyn.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgorffori targedau tymor hir o ran gorchudd coetiroedd yng Nghymru erbyn 2050 a 2100, ac i adlewyrchu manteision economaidd coedwigaeth yn well. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl a chynyddu coedwigo ar dir cyhoeddus, a rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth fanteisio ar gyfleoedd i greu coetiroedd ar dir o'r fath.

Rhwystrau ac atebion

Credai'r sector coedwigaeth fasnachol mai'r rhwystr mwyaf rhag plannu coetiroedd yw gorfodi'r rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn rhy llym. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i ymchwilio i ddulliau arloesol o wella'r broses o weithredu'r rheoliadau, darparu arweiniad a chymorth ychwanegol i ymgeiswyr, ac alinio'r prosesau rheoleiddio ac ariannu yn well. Rhaid bwrw ymlaen â hyn fel mater o frys a rhaid iddo arwain at gynnydd yn y plannu.

Mae nifer o rwystrau biwrocrataidd, ariannol a diwylliannol yn gwneud ffermwyr yn llai parod i blannu coetiroedd. Mae cynlluniau coetir Glastir yn rhy gymhleth a rhagnodol, ac mae'r taliadau'n rhy isel o'u cymharu â thaliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol a geir am dir amaethyddol. Ar ben hynny, mae'r ffaith fod newid defnydd tir yn rhywbeth parhaol, a natur hirdymor yr ad-dalu, yn peri iddynt beidio â phlannu coetir.

Wrth i arian PAC ddod i ben ar ôl 2020, bydd cyfle i ailystyried sut y caiff taliadau o'r fath eu darparu. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried dulliau arloesol o dalu, gan gynnwys Taliadau am Wasanaethau Ecosystem. Caiff cyllid ôl-Brexit ei drafod ymhellach ym Mhennod 6.

Mae Map Cyfleoedd Coetir Glastir, er gwaethaf ei ddiffygion, yn fan cychwyn da. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ei brif ddefnydd wedi'i gyfyngu i fod yn offeryn i'w ddefnyddio ar lefel strategol. Rydym yn credu y dylai'r map gael ei ailffocysu fel ei fod yn offeryn gwneud penderfyniadau ac yn alluogwr creu coetiroedd ar lawr gwlad. Byddai alinio'r map gyda'r broses reoleiddio a gwaith cynllunio'r awdurdodau lleol yn arwain at fanteision pellach. Er enghraifft, gellid llacio'r rhwystrau rheoleiddiol yn yr ardaloedd a ddangosir ar y map fel y rhai mwyaf addas ar gyfer creu coetiroedd. Dylai Llywodraeth Cymru weithio hefyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud y map yn haws ei ddefnyddio i grwpiau penodol o ddefnyddwyr.

[46] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 244

Byddai dangos data defnydd tir a gorchudd tir ar y Map Cyfleoedd Coetir hefyd yn ei wneud yn fwy perthnasol i gynllunio defnydd tir. Nodwn fod coedwigaeth yn cael ei eithrio o'r diffiniad cyfreithiol o 'ddatblygiad' yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac nad yw coedwigaeth yn cael lle amlwg mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) nac ym mholisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae CDLlau hefyd yn dynodi tir ar gyfer defnyddiau lle nad oes angen datblygu, megis mannau agored, llain las, ac ardaloedd gwarchod yr amgylchedd. Rydym yn awgrymu felly fod potensial i awdurdodau lleol ddefnyddio'r map fel arweiniad wrth benderfynu ar dir i'w ddefnyddio ar gyfer coedwigo. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall annog trefn o'r fath.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adnewyddu ei strategaeth coetir gyda'r nod o gynyddu'r cyfraddau plannu yn sylweddol. Rhaid i'r strategaeth ddiwygiedig gynnwys targedau tymor hir ar gyfer gorchudd coetir a rhaid iddi gynnwys coedwigaeth fasnachol.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynyddu plannu, yn benodol trwy:

- Alinio'r prosesau rheoleiddio ac ariannu, a darparu arweiniad a chymorth ychwanegol i ymgeiswyr.
- Archwilio'r potensial i fabwysiadu rhagdybiaeth y caiff ceisiadau eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map Cyfleoedd Coetir fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd.
- Gwneud y Map Cyfleoedd Coetir yn haws ei ddefnyddio i ystod o wahanol grwpiau o ddefnyddwyr, a'i gysylltu â'r system cynllunio defnydd tir.

02. Ymateb i newid hinsawdd

Mae'r bennod hon yn trafod sut y gall coed a choetiroedd ein helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Tynnwyd sylw yn benodol at y rôl bwysig sydd gan goed a choetiroedd wrth ddal a storio carbon a rheoli'r perygl o lifogydd.

Dal a storio carbon

42. Mae coed yn gweithredu fel suddfan carbon deuocsid (CO2) drwy sefydlogi carbon yn ystod ffotosynthesis a storio carbon dros ben fel biomas.[47] Mae 'dal a storio carbon' yn cyfeirio at y gyfradd storio CO2 flynyddol mewn biomas uwchlaw ac o dan y ddaear. Gall cynyddu nifer y coed, felly, arafu'r croniad o garbon atmosfferig, sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae coed mwy o faint, sy'n tyfu'n gyflymach, yn tueddu i ddal a storio mwy o CO2, er bod y cyfraddau'n lleihau unwaith y bydd y goeden yn cyrraedd y cyfnod ôl-aeddfedrwydd.

43. Pwysleisiodd Tilhill Forestry hyn:

> "Well managed woodlands are a sustainable natural resource that can sequester carbon from the atmosphere and 'lock it up' in utilisable timber... Fast growing conifers, thinned regularly, remain the most efficient woodland type in delivering carbon benefits and coping with climate change."[48]

44. Fodd bynnag, yn sgil llai o blannu coetir (yn enwedig coed conwydd), mae BSW Timber a Jonathan Cryer (RSPB) yn credu bod Cymru'n methu'r cyfle i wneud yn fawr o fanteision dal a storio carbon.

45. Mae Prifysgol Bangor yn awgrymu y dylid cynnal asesiad cylchred bywyd er mwyn deall effaith net rheoli coedwigoedd a'u cynnyrch ar y gwaith o liniaru newid hinsawdd. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r RSPB hefyd y dylid ystyried y defnydd a wneir yn y pen draw o gynnyrch pren wrth ystyried y cyfraniad y gall coedwigaeth ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dywedodd Jonathan Cryer (RSPB):

> "…when we talk about carbon, it's important to factor in the end use of the timber as well. Broadleaf trees will be there for a longer period of time, but they do accumulate the carbon much more slowly [than coniferous trees]. But, over a longer term, the carbon benefits could balance out, particularly based on the end use of the timber… I think, with the kind of planting we're seeing at the moment, it's such a small scale that it's going to have limited carbon benefits anyway. If we do want full carbon benefits, then we do need more planting..."[49]

Rheoli'r perygl o lifogydd

46. Mae coed a choetiroedd yn rheoleiddio dŵr storm trwy ddal a storio dŵr glaw ar eu dail, sydd wedyn un ai'n anweddu, neu'n cyrraedd afonydd a dŵr daear yn arafach. Mae coed hefyd yn gwella'r ymdreiddio i'r pridd drwy sianelu dŵr fel ei fod yn glanio ar arwynebau hydraidd o gwmpas y boncyff, a

[47] Y Comisiwn Coedwigaeth, Darparu gwasanaethau ecosystem trwy goedwigoedd trefol, 2017
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig Tilhill Forestry
[49] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 44

thrwy'r pridd ar hyd sianeli gwreiddiau. Mae coed â boncyffion mawr, cymhareb arwynebedd dail i arwynebedd arwyneb uchel, a haenau lluosog o ganghennau felly yn arbennig o fuddiol.

47. Awgrymai adroddiad y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd, "Woodland for Water",[50] fod achos da i dangos bod coetiroedd torlannol a gorlifdirol yn lliniaru llifogydd i lawr yr afon, tra bod adroddiad ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth[51] yn awgrymu y gall coridorau o goed gerllaw afonydd neu ffyrdd fod yn effeithiol mewn ardaloedd trefol. Gwnaed pwyntiau tebyg yn adroddiad Coed Cadw, Holding Back the Waters:

> "… management of flooding caused by excessive rainfall is most effective if the rainwater is managed where it falls, rather than where it floods … [though] interception by trees in urban areas can be critical in reducing the pressure on the drainage system and lowering the risk of surface water flooding."[52]

48. Tynnodd Coed Cadw sylw at lwyddiant y Cynllun Pontbren ym Mhowys, lle bu ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd i blannu coed a gwrychoedd a chreu llynnoedd er mwyn lleihau dŵr ffo.

49. Fodd bynnag, dywedodd y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol a'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd nad oes digon yn cael ei wneud i wireddu potensial lliniaru llifogydd coetiroedd oherwydd diffyg cymhellion clir. Ychwanegodd Prifysgol Bangor fod diffyg tystiolaeth o hyd ynglŷn â pha fathau o goetir, ym mha fannau, fyddai'n rhoi'r budd net mwyaf o ran lliniaru perygl llifogydd.[53]

Safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru

50. Tynnodd papur Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at Adroddiad Tystiolaeth y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd ar yr Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 2017[54] a oedd yn nodi risgiau a chyfleoedd i goetiroedd mewn hinsawdd sy'n newid.

51. Tynnodd Michelle van-Velzen (CNC) sylw at enghraifft lwyddiannus Grangetown Werddach[55] lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Dŵr Cymru i gynyddu'r gorchudd coed a lleihau dŵr ffo ar yr wyneb mewn amgylchedd trefol poblog. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau cynllunio lleol eraill bob amser yn dilyn argymhellion Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch plannu coed neu ddraeniau trefol cynaliadwy.[56]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

52. Roedd papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn pwysleisio'r rôl bwysig y gall coed ei chwarae yn dal a storio carbon. Dywedai hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar gynigion i ehangu'r gwaith plannu coetiroedd fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Chynllun Cyflawni Carbon Isel erbyn gwanwyn 2019.

---

[50] Y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd, Woodland for Water, 2011
[51] Y Comisiwn Coedwigaeth, **Delivery of ecosystem services by urban forests**, 2017
[52] Coed Cadw, **Holding Back yr Waters**, 2014
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Bangor
[54] Y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd, UK Climate Change Risk Assessment Evidence Report: Summary for Wales, 2017
[55] **Grangetown Werddach**
[56] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 185

Ein barn ni

Mae coed a choetiroedd yn gweithredu fel ateb sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, drwy ddal a storio carbon a thrwy helpu i reoli perygl llifogydd mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Yn anffodus, mae'r diffyg plannu wedi lleihau gallu Cymru i ddefnyddio coetiroedd newydd fel offeryn i werthsefyll newid yn yr hinsawdd. Nodwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i edrych ar gynigion i ehangu'r gwaith plannu coetiroedd fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Chynllun Cyflawni Carbon Isel erbyn gwanwyn 2019, ac rydym yn annog mabwysiadu'r Cod Carbon Coetiroedd yn ehangach. Mae angen manylion pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch sut y caiff hyn ei gyflawni.

Mae ymaddasu i'r perygl cynyddol o lifogydd hefyd yn golygu bod rhaid rhoi mwy o sylw i blannu mwy o goed, yn enwedig mewn ardaloedd trefol sy'n dueddol o gael llifogydd ac yn uwch i fyny'r afon. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cymhellion a chanllawiau clir i berchnogion a rheolwyr tir i blannu coed i'r diben hwn, a datblygu a chyflwyno cynlluniau Taliadau am Wasanaethau Ecosystem. Rydym yn credu bod yn rhaid i strategaeth Coetiroedd i Gymru ar ei newydd wedd fynd ati'n benodol i annog plannu coed a choetiroedd er mwyn helpu i reoli'r perygl o lifogydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu meddylfryd mwy hirdymor a mynd i'r afael â materion megis newid yn yr hinsawdd. Mae coetiroedd mewn sefyllfa ddelfrydol i wireddu dyheadau'r Ddeddf a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dylai'r strategaeth ddiwygiedig anelu at annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo creu coetiroedd a draenio cynaliadwy yn eu Cynlluniau Llesiant Lleol.

Argymhellion

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio coed a choetiroedd fel ateb sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â llifogydd, a hwyluso ehangu'r Cod Carbon Coetiroedd.

03. Coetiroedd i bobl

Mae'r bennod hon yn archwilio pa mor dda y mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn cyflawni'i hamcanion i gynyddu nifer y bobl sy'n elwa o goed a choetiroedd o ran: ansawdd bywyd mewn ardaloedd trefol; ymgysylltu â'r gymuned; dysgu gydol oes; ac iechyd a lles. Mae dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16[57] yn dangos bod canfyddiad y cyhoedd, cyfranogiad y gymuned a'r defnydd o goetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden oll yn gwella. Clywsom fod cynnydd da wedi'i wneud o dan y thema hon o'r strategaeth; fodd bynnag, mae lle i wella o hyd.

Coed mewn ardaloedd trefol ac yn agos atynt

53. Mae Coed Cadw, Ymddiriedolaethau Natur Cymru ac eraill yn nodi manteision coed mewn ardaloedd trefol ac yn agos atynt. Mae Coed Cadw yn dweud:

> "The trees which have the greatest positive impact on people are probably those in our towns and cities. Compelling international evidence demonstrates the massive health and well-being benefits afforded by tree-filled green space."[58]

54. Fodd bynnag, tynnodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru sylw at y gostyngiad diweddar yn y gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru. Tynnodd Coed Cadw sylw at ddeiseb[59] a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2016, sy'n galw am gefnogi'r egwyddor y dylai fod gan bob tref a dinas yng Nghymru o leiaf 20% o orchudd canopi coed. **Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'r ddeiseb**[60] ym mis Hydref 2016 heb ymrwymo i weithredu pellach, gan ddweud bod yna eisoes gorff mawr o waith ymchwil a gwybodaeth yn cefnogi'r manteision a ddaw o blannu coed mewn ardaloedd trefol. Trafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb ar 11 Gorffennaf 2017, gan ddod i'r casgliad y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i ddefnyddio Datganiadau Ardal[61] i gynyddu'r gorchudd canopi coed mewn ardaloedd trefol â blaenoriaeth.

55. Mae Forest Research hefyd wedi galw'n ddiweddar ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn nhrefi a dinasoedd Lloegr i osod targed o 20% o leiaf o orchudd canopi coed.[62] Mae hyn yn dilyn cyhoeddi adroddiad ymchwil gan y Comisiwn Coedwigaeth yn nodi dangosyddion cyflawni o ran darparu gwasanaethau ecosystem gan goedwigoedd trefol.[63]

56. Crybwyllodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru a Choed Cadw yr arolygon i-Tree Eco[64] a gynhaliwyd yn Wrecsam, Pen-y-bont a dalgylch Tawe. Mae'r rhain yn mesur y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goed trefol, yn cynnwys lliniaru llifogydd, gwella ansawdd aer a dal a storio

---

[57] Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw
[59] Deiseb Coed mewn Trefi
[60] Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'r ddeiseb
[61] Mae'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i Ddatganiadau Ardal gael eu cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu gyrff cyhoeddus erbyn 2019. Eu diben yw nodi'r risgiau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol mewn ardal.
[62] The Canopy Cover of England's Towns and Cities
[63] Y Comisiwn Coedwigaeth, Delivery of ecosystem services by urban forests, 2017
[64] Arolygon i-Tree Eco

carbon. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio strategaethau rheoli coed lleol a pholisïau cynllunio trefol, fel sydd wedi digwydd yn Wrecsam.[65]

57. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru, yr RSPB a Chyswllt Amgylchedd Cymru yn awgrymu y dylai'r angen i blannu coed trefol gael sylw mewn Cynlluniau Llesiant Lleol[66] a Datganiadau Ardal.

Cefnogaeth i grwpiau coetir cymunedol

58. Mae'r term "coetir cymunedol" yn cyfeirio at unrhyw goetir lle mae gan y gymuned leol rywfaint o reolaeth dros y modd y caiff y coetir ei redeg neu'i reoli. Fel arfer maent yn cael eu cefnogi gan grŵp coetir cymunedol a gallant fod yn eiddo i'r grŵp cymunedol neu'n cael eu prydlesu ganddo, neu'n cael eu rheoli mewn partneriaeth â sefydliad arall (perchennog y tir fel arfer). Mae tua 27% o grwpiau coetir cymunedol yn berchen ar eu coetir, tra mae dros 70% yn gofalu am y coetir trwy gytundeb rheoli gyda'r perchennog. Mae tua 59% o'r coetiroedd cymunedol yng Nghymru wedi'u lleoli ar dir sy'n berchen i'r awdurdod lleol.[67]

59. Roedd nifer o'r ymatebion yn cefnogi grwpiau coetir cymunedol, fel y rhai sy'n rhan o rwydwaith Llais y Goedwig. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a Chymdeithas yr Hosteli Ieuenctid o blaid cynyddu'r arian ar gyfer Llais y Goedwig.

60. Adleisiodd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gweithdy ym Maesteg y farn nad oes digon o arian ar gael i Lais y Goedwig a Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi prosiectau coetir cymunedol. Roedd teimlad hefyd ei bod yn anodd i gymunedau reoli coetiroedd cymunedol yn effeithiol os nad ydynt yn berchen ar y tir.

61. Dywedodd Frances Winder (Coed Cadw) wrth y Pwyllgor fod diffyg cyngor ar gael i reolwyr coetiroedd bach a chymunedol:

> "… there are far more people out there who are willing to do [woodland management] than who have the woods either close to them or have the ability to do it. If we could upskill them, they would be able to do it."[68]

62. Fodd bynnag, mewn gohebiaeth at y pwyllgor, dywedodd Martin Bishop (Confor) nad oedd yn derbyn hyn, a rhestrodd yr ystod o ffynonellau cyngor.[69]

Coetiroedd ac adfywio cymunedol

63. Trafododd Aelodau'r Pwyllgor rôl bosibl coedwigaeth a choetiroedd yn cyfrannu at adfywiad hen gymunedau glofaol yng nghymoedd De Cymru. Un ffordd bosibl o wneud hyn yw drwy Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, sy'n gweithredu ledled Prydain Fawr ac, yng Nghymru, yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Dyma ei datganiad cenhadaeth:

> "To champion and strengthen coalfield communities, generate resources to respond to their needs and deliver programmes that make a positive and lasting difference."[70]

---

[65] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Strategaeth Coed a Choetiroedd Wrecsam 2016-2026 (PDF 3251 KB)
[66] Mae'n ofynnol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gyhoeddi Cynlluniau Llesiant erbyn mis Mai 2018 (a ddim hwyrach na 12 mis ar ôl etholiad llywodraeth leol cyffredin). Eu diben yw helpu'r byrddau i gyflawni'r amcanion llesiant ar gyfer eu hardaloedd.
[67] Llais y Goedwig, Community Woodlands
[68] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 71
[69] Llythyr gan Confor, 6 Gorffennaf 2017

64. Rhoddir dwy enghraifft lwyddiannus o greu coetiroedd sy'n cyfrannu at adfywio cymunedol mewn hen ardaloedd glofaol isod.

Coetir Ysbryd y Llynfi[71]

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio gyda chymunedau yng Nghwm Llynfi Uchaf i adfer safleoedd hen waith glo Coegnant a Golchfa Maesteg a'u troi'n goetir cymunedol newydd. Bu trigolion lleol, grwpiau cymunedol ac ysgolion i gyd yn helpu i blannu coed, yn ogystal â chyfrannu syniadau am yr hyn y maent am ei weld ar y safle, er enghraifft coed ffrwythau a llwybrau beicio. Y prif ysgogiad sy'n gyrru'r prosiect yw iechyd a lles y cymunedau cyfagos (sydd â disgwyliad oes 20 mlynedd yn fyrrach na phobl ym Mhen-y-bont gerllaw), yn ogystal â manteision amgylcheddol megis lleihau'r perygl o lifogydd a hyrwyddo bioamrywiaeth.

Y Goedwig Genedlaethol yn Lloegr[72]

Mae'r Goedwig Genedlaethol wedi'i lleoli yng nghanol Lloegr, ac yn cael ei rhedeg gan y National Forest Company. Er 1995, mae dros wyth miliwn o goed wedi'u plannu ar draws 200 milltir sgwâr mewn ardal yr oedd angen ei hadfywio ar ôl i gloddio am lo ddod i ben. Mae cyllid gan Defra wedi bod yn fodd i gynyddu'r gorchudd coetir o 6% yn 1991 i fwy nag 20% erbyn 2016, gyda 86% o hyn yn hygyrch i'r cyhoedd. Nid yw'n glir pam nad yw Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi mynd ati'n fwy egnïol i adfywio coetiroedd ar draws Cymru.

Coetiroedd a dysgu gydol oes

65. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai polisïau gynnig cyfleoedd i bobl gael profiad o fywyd gwyllt y coetir, cymryd rhan mewn gwaith cadwraeth a rheoli coetiroedd, ac elwa'n gorfforol ac yn seicolegol wrth wneud hynny.

66. Yn y gweithdy rhanddeiliaid ym Maesteg, awgrymwyd y dylid cael mecanwaith ar gyfer ymgysylltu gydol oes. Soniwyd am brosiect Mosaic Cymru[73] fel enghraifft gadarnhaol o hyn; fodd bynnag, dim ond arian ar gyfer y tymor byr a gafodd y prosiect.

67. Mae Coed Cadw, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chymdeithas yr Hosteli Ieuenctid yn galw am i bob plentyn gael y cyfle i blannu coed drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> "The educational value of woodland must be materialised together with the provision or retention of interpretation centres in appropriate forest areas. Budgets from health, education, infrastructure, tourism and business ought to contribute."[74]

68. Awgrymodd rhanddeiliaid ym Maesteg fod angen gwneud coetiroedd yn "cŵl" unwaith eto i ddenu pobl ifanc, ac y dylai gwaith Bagloriaeth Cymru gyda grwpiau cymunedol barhau. Credir nad yw ysgolion a phrifysgolion yn ymwneud digon â'u coetiroedd lleol a chefn gwlad yn ehangach; fodd

---

[70] Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
[71] Coetir Ysbryd y Llynfi
[72] Y Goedwig Genedlaethol
[73] Bu prosiect Mosaic Cymru yn rhedeg rhwng 2012 a 2015, yn cefnogi pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yn nhrefi a dinasoedd Cymru i ddysgu am Barciau Cenedlaethol a'u hyrwyddo i eraill yn eu cymuned.
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru

bynnag, rhoddwyd enghraifft gadarnhaol lle'r oedd Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd â grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 i Goetir Ysbryd y Llynfi. Câi'r disgyblion eu hannog i ddweud beth yr hoffent ei weld yn y coetir ac i ysgrifennu barddoniaeth. Mae rhai o'r syniadau'r disgyblion, megis llwybrau cŵn, wedi cael eu rhoi ar waith.

Mynediad i goetiroedd ar gyfer hamdden

69. Er bod pren yn werthfawr, pwysleisiodd Coed Cadw fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gwerth coedwigoedd fel lleoliadau hamdden 10 gwaith yn uwch.[75]

70. Yn ystod y gweithdy ym Maesteg, dywedodd rhanddeiliaid fod dull Cyfoeth Naturiol Cymru o reoli mynediad i goetiroedd cyhoeddus yn amrywio o ardal i ardal ac y byddai dull mwy strategol yn dod â nifer o fanteision:

- Mwy o gyfleoedd mynediad i bob grŵp o ddefnyddwyr (yn seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na pharthau gwahanol);
- Agor ardaloedd o goetir sy'n cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd;
- Llai o dresmasu a gweithgareddau anghyfreithlon, drwy ddarparu mynediad lle mae galw a hunan-blismona gan ddefnyddwyr;
- Mwy o fynediad i bobl anabl a'r rhai sy'n gwella o gyflyrau iechyd; a
- Mwy o refeniw i Cyfoeth Naturiol Cymru gan fod rhai grwpiau defnyddwyr, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â cherbydau modur a saethu, yn hapus i dalu am fynediad.[76]

71. Ymysg yr awgrymiadau er mynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad i goetiroedd yn y dyfodol roedd: adlewyrchu hyn mewn Datganiadau Ardal a Chynlluniau Llesiant Lleol; a darparu cymhellion i reolwyr tir i wella mynediad i'w tir fel rhan o gynllun taliadau rheoli tir ôl-Brexit.

72. Mae Cymdeithas yr Hosteli Ieuenctid yn nodi iddi leoli hosteli'n agos at goetiroedd oherwydd eu manteision hamdden, ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod perchnogion coetiroedd preifat yn cynnal hawliau tramwy cyhoeddus i safon uchel.

Gwrthdaro rhwng gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr

73. Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw at enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd coetir.

> "… the detrimental impact visitors to the countryside were having on the well-being of others, as reported recently in terms of damage to footpaths and litter in National Parks, and fly-tipping. As such, it was felt that a Wales-wide policy to educate the general public and younger generation regarding the impacts of such actions should be implemented."[77]

74. Dywedodd Cymdeithas Ceffylau Prydain y dylid ymgynghori â'r holl grwpiau defnyddwyr pan gaiff datblygiadau posibl (er enghraifft llwybrau beicio mynydd newydd) eu hystyried yng nghoetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru.

---

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw
[76] Mae gan grwpiau defnyddwyr megis cerddwyr, marchogion a beicwyr hawl mynediad i goetiroedd cyhoeddus yn barod - nid oes unrhyw awgrym y dylent hwy dalu.
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru

75. Er gwaetha'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng marchogion, beicwyr a cherddwyr a defnyddwyr eraill coetiroedd, roedd llawer o gonsensws rhwng y grwpiau hyn. Yn y gweithdy rhanddeiliaid ym Maesteg, dangosodd y gwahanol ddefnyddwyr ddealltwriaeth o anghenion eraill ac roeddent yn credu y byddai dull sy'n seiliedig ar egwyddorion a hunan-blismona yn hwyluso mwy o fynediad yn gyffredinol, yn hytrach na neilltuo parthau o dir ar gyfer gwahanol ddefnyddiau hamdden.

76. Fodd bynnag, dywedodd y grwpiau defnyddwyr fod problem gyda gweithgareddau anghyfreithlon, fel defnyddio cerbydau modur, beicio mynydd neu saethu. Awgrymwyd y gellid delio â hyn drwy ymdrin yn strategol â chynyddu mynediad a'i reoli'n well.

Safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru

77. Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd at y tri arolwg i-Tree Eco a wnaed yng Nghymru, yn ogystal â'i adroddiad Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru.[78] Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru bwysigrwydd deall hyd a lled coedwigoedd trefol yng Nghymru, eu natur a'r tueddiadau sydd ar waith:

> "There is just 1% of urban tree cover to be found in modern high density housing, which is often in our most deprived wards where more tree cover could provide health and well-being benefits."[79]

78. Ychwanegodd Michelle van-Velzen (CNC) fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi argymell i Lywodraeth Cymru[80] fod angen plannu coed newydd yn lle coed trefol a gollir i ddatblygiadau. Fodd bynnag, nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw bŵer i orfodi hyn.[81] Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y dylai ei astudiaeth Gorchudd Coed lywio gweithgareddau Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

79. O ran y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael i grwpiau coetir cymunedol, dywedodd Peter Garson (CNC):

> "I think it is helpful to improve the guidance and to give some case studies that give a bit of inspiration. There is some work going on with Llais y Goedwig and NRW to try to develop a better set of guidance… I think the Maesteg project at Llynfi does demonstrate that, if you put that time into developing a dialogue, you can get some really great results."[82]

80. Ychwanegodd y byddai lleoliadau coetir eraill y rhoddir blaenoriaethol iddynt, yn agos at gymunedau difreintiedig, yn elwa o gynlluniau tebyg, ond oherwydd y gost o adfer safleoedd tir llwyd rhaid cael cymorth ychwanegol o sectorau eraill. Er enghraifft cafodd coetir Ysbryd y Llynfi gymorth ychwanegol gan Ford.[83]

81. Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy[84] a'r Papur Gwyn arfaethedig ar Ddiwygio Mynediad yn cynnwys

---

[78] Cyfoeth Naturiol Cymru, Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru (PDF 2199 KB), 2016
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[80] Trwy ymateb i **ymgynghoriad** Llywodraeth Cymru ar ddulliau newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
[81] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraffau 171 ac 173
[82] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 145
[83] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 147
[84] Mae'r **ymgynghoriad** (ar agor o 21 Mehefin hyd 13 Medi, 2017) yn ceisio barn ar ddulliau newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

cynnig i ymestyn ei bŵer i ddirprwyo ei swyddogaethau rheoli coedwigoedd i eraill (er enghraifft cymunedau lleol). Cytunai Cyfoeth Naturiol Cymru â sylwadau rhanddeiliaid am ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan nodi pryder ynglŷn â'r nifer cynyddol o lwybrau beicio mynydd anghyfreithlon (a elwir yn llwybrau gwyllt) a gweithgarwch anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd, yn enwedig yng nghymoedd de Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

82. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, "Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru" a oedd yn dangos bod y gorchudd canopi cyfartalog yn nhrefi Cymru wedi gostwng o 16.8% yn 2009 i 16.3% yn 2013. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gwaith hwn yn darparu llinell sylfaen i gynllunio gweithredu wedi'i dargedu, ac awgrymodd y gallai dros 35% o dir mewn trefi mawr gael ei blannu â choed yn ddamcaniaethol. Mae canlyniadau'r astudiaeth wedi'u rhannu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill i ddylanwadu ar gynlluniau lleol, yn cynnwys datblygu Cynlluniau Llesiant Lleol.

83. Ailddwedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y pwyntiau hyn mewn tystiolaeth lafar ac ychwanegol hyn:

> "Everywhere where we have, as I say, new roads, new housing developments, new parks, for instance, I think we should make sure that there is a significant [number of trees planted]. So, I'm looking to maybe issue guidance to local authorities going forward."[85]

84. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fanteision coetiroedd o ran iechyd a lles, gan ddisgrifio ystâd goetir Llywodraeth Cymru fel ased hamdden enfawr.[86] Dylid gwella ymhellach ar hyn drwy gynigion i gynyddu'r ystod o weithgareddau ar Dir Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel y nodir yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.[87] Mae'r rhain yn cynnwys creu math newydd o hawl tramwy cyhoeddus, 'llwybrau beicio', a fyddai'n rhoi blaenoriaeth i feicio a cherdded, a chaniatáu (gydag awdurdod priodol) rasio beiciau wedi'i drefnu ar lwybrau ceffylau. Fodd bynnag, ni chafodd deddfwriaeth o'r fath yn ymwneud â materion mynediad ei chyhoeddi yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

85. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai ymgynghoriad ar ddiwygio mynediad gael ei lansio o bosibl, ond mai'r flaenoriaeth mwy na thebyg o ran deddfwriaeth i'r dyfodol o fewn ei phortffolio hi fyddai Biliau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.[88] Dywedodd hefyd y byddai'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno trwyddedau er mwyn i ddefnyddwyr 'swnllyd' gael mynediad i goetiroedd cyhoeddus. O ran mentrau fel y Goedwig Genedlaethol yn Lloegr a'r potensial i greu rhywbeth tebyg yng nghymoedd De Cymru, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn agored i syniadau radical o'r fath.[89]

86. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid craidd ar gyfer Llais y Goedwig er 2016 a dywedodd y byddai'n ystyried cynyddu'r cyllid ar gyfer grwpiau coetir cymunedol bach o 2018 ymlaen.[90]

---

[85] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 353
[86] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[87] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Fwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy' (Mehefin – Medi 2017)
[88] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 333
[89] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 301
[90] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 348

Ein barn ni

Coed trefol

Mae i goed mewn ardaloedd trefol ac yn agos atynt fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol, yn cynnwys gwelliannau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r duedd i'r gorchudd canopi coed trefol ar draws Cymru grebachu, a chyflwyno cynllun i sicrhau gorchudd o 20% o leiaf ym mhob un o drefi a dinasoedd Cymru erbyn 2030. Mae angen cynyddu'r gorchudd canopi coed trefol - yn enwedig mewn ardaloedd blaenoriaeth lle mae'r gorchudd canopi yn gyfyngedig - a dylid rhoi sylw i hyn hefyd drwy Gynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal.

Fodd bynnag, dim ond y dechrau yw cynyddu'r gorchudd canopi. Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau ecosystem yn ein trefi a'n dinasoedd - i fynd i'r afael â materion megis llifogydd, llygredd aer, a materion iechyd corfforol a meddyliol - mae angen sicrhau bod y coed iawn yn cael eu plannu a'u rheoli yn y llefydd iawn. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ar blannu coed trefol a rhoi coed newydd yn lle'r rhai a gollir, ac yn argymell y dylid adlewyrchu'r ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Coedwigaeth[91] ac eraill[92] wrth wneud hynny.

Ymgysylltu â'r gymuned ac adfywio

Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer grwpiau coetir cymunedol bach, a'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Llais y Goedwig i wella'r canllawiau (yn cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos) ar gyfer y grwpiau hyn. Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig i ymestyn pŵer Cyfoeth Naturiol Cymru i ddirprwyo ei swyddogaethau rheoli coedwigoedd i gymunedau lleol.

Rydym yn credu bod gan goedwigaeth a choetiroedd rôl arwyddocaol i'w chwarae i adfywio hen gymunedau glofaol cymoedd de Cymru. Rydym, felly, yn croesawu parodrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried mentrau 'radical' fel 'Coedwig Genedlaethol' i Gymru, ac yn awgrymu ei bod yn ymchwilio ymhellach i hyn. Rydym yn gobeithio y gall Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo fynd ati'n fwy egnïol i adfywio coetiroedd. Rydym hefyd yn annog cysylltu polisïau adfywio â mentrau eraill mewn Datganiadau Ardal a Chynlluniau Llesiant Lleol.

O ran addysg, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod plannu coed ac addysg coetiroedd yn cael eu hymgorffori yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a dylai ehangu ei chefnogaeth i waith Bagloriaeth Cymru gyda grwpiau cymunedol.

Mynediad a hamdden

Mae gwerth hamdden coetiroedd yn sylweddol, ond mae llawer o goetiroedd sy'n dal yn anhygyrch i'r cyhoedd, a gwahanol grwpiau o bobl sydd ar y cyrion. Rydym yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru i agor ardaloedd o'r ystâd coetir gyhoeddus sy'n cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd, a chanolbwyntio ar hyrwyddo a gwella mynediad i bobl anabl, cymunedau difreintiedig a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. O ran coetiroedd preifat, rydym o blaid defnyddio cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystem i gymell perchnogion tir i alluogi mynediad i'w tir at ddibenion hamdden.

[91] Y Comisiwn Coedwigaeth, Delivery of ecosystem services by urban forests, 2017
[92] Challenges for tree officers to enhance the provision of regulating ecosystem services from urban forests

Yn niffyg deddfwriaeth newydd ar ddiwygio mynediad, rydym yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn rhagweithiol o ran ehangu mynediad i goetiroedd a'i reoli'n well. Er enghraifft, os yw'n briodol, rydym yn argymell agor coetiroedd i ddefnydd trwyddedig, y telir amdano felly, gan grwpiau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau swnllyd neu gyflymder uchel megis saethu a defnyddio cerbydau modur. Nid yn unig y bydd hyn yn cynyddu'r refeniw o goetiroedd, ond dylai hefyd leihau defnydd anghyfreithlon o goetiroedd mewn mannau eraill.

Argymhellion

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau isafswm o 20% o orchudd canopi coed trefol, gan fynd i'r afael â hynny drwy Gynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal.

Argymhelliad 5. Gall coetiroedd fod yn offeryn effeithiol ar gyfer adfywio ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru harneisio hyn ac, fel man cychwyn, dylai:

- Cynyddu'r gefnogaeth i grwpiau coetir cymunedol.
- Asesu'r potensial i ddatblygu Cwmni Coedwig Genedlaethol i helpu i adfywio cymoedd y De.
- Sicrhau bod addysg coetir yn cael ei hymgorffori mewn polisïau addysg.

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru ehangu mynediad i goetiroedd cyhoeddus a'i reoli'n well, yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried opsiynau i adennill costau oddi wrth grwpiau defnyddwyr sy'n ymgymryd â rhai gweithgareddau hamdden penodol yn y coetiroedd y mae'n eu rheoli.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'i hamserlen ar gyfer dod â chynigion gerbron i ddiwygio mynediad.

04. Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig

Mae'r bennod hon yn ystyried pa mor dda y mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn cyflawni'i hamcanion i: wneud y sector coedwigaeth yn fwy integredig a chystadleuol; cynyddu faint o bren wedi'i dyfu yng Nghymru a ddefnyddir yng Nghymru; a sicrhau gweithlu ffyniannus, medrus. Roedd ymatebion gan y sector coedwigaeth fasnachol yn pwysleisio bod y sector yn gystadleuol a bod ganddo'r potensial i dyfu'n sylweddol; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei beryglu gan y lefel isel o blannu coed, buddsoddi a sgiliau.

Potensial o ran twf

87. Nododd Hamish McLeod (BSW Timber) fod sector melinau coed Cymru wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus[93] ond nad oes sail resymegol ar gyfer buddsoddi ymhellach yng nghapasiti Cymru o ran melinau coed tra bod y cyfraddau plannu ac ailstocio mor isel.

88. Dywedodd y sector coedwigaeth fasnachol fod gan Gymru botensial mawr i fod yn fwy hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nododd Confor:

> "The UK is the third largest importer of wood products in the world, we already have a huge market for the products right next door to Wales without having to access the single EU market… Wales produced 1.6m cu m of roundwood in 2015, just 6% of the UK demand so there is a massive market opportunity for Wales to exploit."[94]

89. Ychwanegodd BSW Timber:

> "…there is opportunity to expand market penetration of locally produced timber in local construction. For example, Powys County Council… are to be commended for introducing a Wood Encouragement Policy whereby they will ensure that all briefs for new Council housing projects incorporate the requirement to use wood where it is deemed suitable and cost effective."[95]

90. Fodd bynnag, mynegodd Undeb Amaethwyr Cymru bryder nad oes unrhyw gadwyn gyflenwi ar hyn o bryd ym maes cynhyrchu pren,[96] ac argymhellodd y dylid ymchwilio'n fanylach i hyn fel cyfle ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ychwanegodd yr Athro Elizabeth Robinson (Prifysgol Reading) y bydd yn rhaid cyfaddawdu wrth ddisodli pren wedi'i fewnforio â phren cartref, gan y gallai'r olaf fod yn ddrutach.

Gwrthdaro rhwng coedwigaeth a ffermio

91. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn, ac ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor i ddyfodol rheoli tir,[97] yn dangos tyndra rhwng y sector coedwigaeth a'r sector amaethyddiaeth pan ddaw'n fater o flaenoriaethu'r defnydd o dir gwledig, yn enwedig mewn ardaloedd ymylol. Awgrymodd

---

[93] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 245
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig Confor
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig BSW Timber
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru
[97] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru (PDF, 2.9 MB), Mawrth 2017

Coed Cadw fod polisïau amaethyddiaeth a choedwigaeth ar wahân wedi tanseilio'i gilydd mewn ffyrdd allweddol.[98]

92. Fodd bynnag, awgrymodd y CLA y dylai Cymru achub ar y cyfle i reoli tir mewn ffordd fwy cydgysylltiedig:

> "The cultural identity of rural Wales is fundamentally based on farming, and the forestry community needs to establish how to integrate with this structure. We must stop setting forestry against farming, it does not have to be an either/or situation, many farmers are already also woodland owners. The farming sector needs to look at the benefits that forestry, especially collaborative planting and management, can deliver to their existing farm businesses to improve resilience and potentially provide additional income streams. Forestry and farming must learn to work alongside each other again and government must provide the knowledge, advice and support to break down barriers and deliver beneficial, sustainable land use change."[99]

Sgiliau, hyfforddiant ac ymchwil

93. Pwysleisiodd Tillhill Forestry a Confor y datblygiadau technolegol yn y sector, sy'n cynnig ystod lawn o gyfleoedd cyflogaeth, o rolau lled-fedrus i waith medrus iawn, yn ogystal â gwaith technegol a rolau uwch reoli. Fodd bynnag, roeddent yn bryderus nad oes digon o bobl ifanc gyda'r sgiliau cywir i fanteisio ar y cyfleoedd hyn, a hoffent gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gywiro hyn. Roedd y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol a'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd hefyd yn rhannu'r pryderon hyn. Dywedodd y Panel yn benodol:

> "We would like to see NRW expanding its apprentice scheme, offering sandwich year placements and reviving the former forest education programme of Forestry Commission Wales."[100]

94. O ran gwaith mwy corfforol, plannu coed er enghraifft, mae'n dod yn fwy anodd recriwtio. Dywedodd David Edwards (Tilhill Forestry):

> "Going down to the people who are actually physically doing the work on the ground, again, there's an ageing population and it's about trying to encourage people to come in and do the work. Tree planting is not a particularly attractive job."[101]

95. Mae Prifysgol Bangor yn dweud y byddai gwell integreiddio rhwng sefydliadau masnachol, ymchwil ac addysgol yn gwneud y sector yn fwy cystadleuol, ac yn ychwanegu llawer mwy o werth i'r cynnyrch a gaiff ei gynaeafu o goedwigoedd Cymru.

96. Dywedodd y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol fod yn rhaid cyd-drefnu gwaith ymchwil ynglŷn â choedwigaeth ar draws y DU ac yn rhyngwladol, ac roedd yn pryderu am allu gwyddonwyr yng Nghymru i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil perthnasol ar ôl i'r DU adael yr UE. Dywedodd

---

[98] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig y CLA
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd
[101] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 324

Alec Dauncey (Prifysgol Bangor) y bydd angen ymdrech sy'n gweithredu'n fwy o'r gwaelod i fyny ar ôl Brexit efallai.[102]

Safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru

97. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi barn y sector coedwigaeth fasnachol fod i brosesu coed botensial mawr i ychwanegu gwerth i economi Cymru.

98. Cytunai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd â rhanddeiliaid fod y gostyngiad yn nifer y coedwigwyr a'r rheolwyr coetiroedd sydd â sgiliau proffesiynol ac arbenigol yng Nghymru yn peri pryder. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi gweithio gyda Chyswllt Ffermio a Choedwigaeth i addysgu rheolwyr tir; gyda Sefydliad Siartredig y Coedwigwyr i gynnig teithiau maes i bobl ifanc; ac wedi cefnogi Ysgolion Coedwig drwy hyfforddi arweinwyr Ysgolion Coedwig. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd fod y Brentisiaeth Coed a Phren yn orlawn, ac y gellid ei hehangu yn y dyfodol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

99. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi:

> "A strong focus on improving processing and added value within supply chains to improve competitiveness; and
>
> An increased market share of home produced timber and less reliance on imports."[103]

100. Disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fanteision defnyddio pren a gynhyrchwyd yng Nghymru ym maes adeiladu:

> "… the increased use of timber will help to deliver the domestic supply chain to meet demands of the construction sector for a sustainable supply of raw material… The shorter travelling distance reduces the amount of emissions produced during its transport and finally the absorbed carbon in the form of timber can then be locked up for a very long time in a wide range of construction uses."[104]

101. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod newid y rheoliadau adeiladu i hyrwyddo defnyddio pren wrth adeiladu yn bosibilrwydd[105] ac ychwanegodd y byddai'n trafod hyn yn fanylach gyda Woodknowledge Wales[106] a'r Structural Timber Association[107].

102. O ran rhai o'r rhwystrau diwylliannol rhag plannu o fewn cymunedau ffermio, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen i'r rhwydwaith cynghori sy'n cefnogi ffermwyr roi sylw i fanteision plannu coed. Fel enghraifft, soniodd y Ysgrifennydd Cabinet am y Pecyn Grant Coedwigaeth Defaid a

---

[102] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 175
[103] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[104] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[105] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 292
[106] Mae **Woodknowledge Wales** yn canolbwyntio ar ddatblygu cwmnïau a sefydliadau sy'n ymwneud â'r cyflenwad pren, y galw amdano a'r defnydd ohono yng Nghymru.
[107] Nod y **Structural Timber Association** yw hybu ansawdd ac arloesedd cynnyrch yn y sector coed strwythurol.

Choed[108] a gyflwynwyd yn ddiweddar yn yr Alban. Roedd y grant yn darparu arian i greu coetiroedd ac adeiladu ffyrdd ar yr un darn o dir ar yr un pryd, a hefyd yn cynnal y niferoedd stoc a chyfraddau'r Cynllun Taliad Sylfaenol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn ystyried cyflwyno grant o'r fath yng Nghymru.[109]

103. Cytunai'r Ysgrifennydd Cabinet â rhanddeiliaid fod angen annog mwy o bobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd mewn coedwigaeth, ac roedd wedi trafod hyn gyda'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth a chyda Phrifysgol Bangor.[110] Tynnodd sylw at brosiect Llywodraeth Cymru, Focus on Forestry First[111], a dywedodd y byddai'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno prentisiaethau i gefnogi anghenion hyfforddiant y sectorau coedwigaeth ac amaethyddiaeth.[112]

Ein barn ni

Cyfyngiadau ar y sector

Mae sector melinau coed Prydain yn un o'r mwyaf datblygedig yn dechnegol yn Ewrop, ond gyda'r cyfraddau plannu ac ailstocio mor isel, mae buddsoddiad mewn capasiti melinau coed yn gadael Cymru ac yn symud i'r Alban. Rydym yn pryderu'n fawr am yr effaith y bydd hyn, ynghyd â'r gostyngiad yn y cyflenwad o bren meddal, yn ei chael ar ddyfodol melinau pren Cymru, a hefyd ar ein cymunedau gwledig.

Rydym hefyd yn pryderu am y diffyg ailstocio a chreu coetiroedd ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gostyngiad ym maint gweithgarwch coedwigaeth fasnachol Cyfoeth Naturiol Cymru. O ystyried y diffyg sylweddol o ran plannu coetiroedd, o'i gymharu â'r targed blynyddol o 5,000 ha, a'r awydd i gynhyrchu mwy o pren cartref, rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi eu pregeth eu hunain ar waith.

Cyfyngiad arall ar y sector yw'r hen rhaniad diwylliannol rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Brexit fel cyfle i ddod â'r ddau sector at ei gilydd, yn cynnwys hyrwyddo manteision masnachol a manteision eraill coetiroedd yn y gymuned ffermio. Rydym yn falch o weld ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i hyn, ac yn cefnogi cyflwyno grant 'Defaid a Choed' yng Nghymru.

Fel y sector ffermio, mae'r gweithlu coedwigaeth hefyd yn heneiddio, ac nid yw pobl ifanc yn ôl pob golwg yn ymwybodol o'r ystod eang o rolau technegol, cynllunio a rheolaethol sydd ar gael yn y sector. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn drwy adfywio rhaglen addysg y goedwig; ehangu cynllun Prentisiaethau Coed a Phren Cyfoeth Naturiol Cymru; ymestyn prosiect Focus on Forestry First; hyrwyddo cymwysterau fel y diploma City & Guilds mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth; a sicrhau bod cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth yng nghefn gwlad yn ogystal ag mewn trefi.

---

[108] Cafodd y Pecyn Grant Coedwigaeth Defaid a Choed ei lansio gan Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban yn y Royal Highland Show ym mis Mehefin 2017. Mae'n deillio o ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Bangor sy'n dangos bod defaid yn fwy tebygol o oroesi tywydd eithafol os oes cysgod ar ffurf coed, llwyni a gwrychoedd yn cael ei ddarparu iddynt.
[109] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 295
[110] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 313
[111] Prosiect tair blynedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE yw Focus on Forestry First sy'n helpu busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yn y sector coedwigaeth i adeiladu ar eu sylfaen sgiliau a gwybodaeth.
[112] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 317

Potensial o ran twf

Ar hyn o bryd dim ond 6% o'r pren sy'n ofynnol yn y DU bob blwyddyn a gyflenwir gan Gymru, ac mae'r DU yn mewnforio llawer iawn o bren o dramor. Cyhyd â bod modd mynd i'r afael â'r diffyg coedwigo, rydym yn credu bod gan Gymru gyfle gwych i ddiwallu llawer mwy o'r galw hwn, ac i symud tuag at fod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren a dibynnu llai ar fewnforion.

Mae'r ymdrech i gynyddu cynaliadwyedd ym maes adeiladu a lleihau olion troed carbon yn y DU a'r tu hwnt yn golygu y bydd y galw am bren cartref yn codi'n sylweddol. Rydym yn canmol Cyngor Sir Powys am gyflwyno Polisi Annog Pren, ac rydym yn annog pob awdurdod lleol i weithredu mewn modd tebyg. Rydym, felly, yn cefnogi parodrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried newid y Rheoliadau Adeiladu i hyrwyddo defnyddio pren wrth adeiladu.

Ar y cyfan, rydym yn cymeradwyo bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan y sector coedwigaeth fasnachol. Rydym yn teimlo y dylai hyn gael ei lywio gan newid sylweddol i strategaeth Coetiroedd i Gymru, gyda llawer mwy o ffocws yn cael ei roi ar fanteision economaidd a chynaliadwyedd coedwigaeth fasnachol a reolir yn dda. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gymryd rhan mewn partneriaethau sector cyhoeddus-preifat-trydydd sector mwy agored er mwyn gwella'r cyfathrebu o fewn y sector coedwigaeth fasnachol, a'r canfyddiad ohono.

Argymhellion

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar y sector coedwigaeth fasnachol, yn arbennig trwy:

- Hwyluso creu coetiroedd conwydd a gweithrediadau masnachol ar dir cyhoeddus a phreifat.
- Hyrwyddo i'r gymuned amaethyddol fanteision masnachol a manteision eraill plannu coed ar dir amaethyddol, a galluogi ffermwyr i wneud hyn drwy daliadau grant ychwanegol, syml a hyblyg.
- Darparu a hyrwyddo hyfforddiant mewn coedwigaeth, rheoli coetiroedd a chynllunio coetiroedd.

Argymhelliad 9. Dylai'r potensial ar gyfer twf yn y sector coedwigaeth fasnachol gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, dylai:

- Cytuno gyda'r sector coedwigaeth ar dargedau uchelgeisiol er mwyn i Gymru ddod yn gynyddol hunangynhaliol o ran cynhyrchu pren, ac yn llai dibynnol ar fewnforion.
- Dylai ystyried newid y rheoliadau adeiladu i hyrwyddo'r defnydd o bren ym maes adeiladu.

05. Ansawdd amgylcheddol

Mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn ceisio gwella cyflwr a rheolaeth coetiroedd; gwella iechyd a gwytnwch ecosystemau coetiroedd, a datgloi'r potensial mewn coetiroedd a choed fel bod modd darparu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau ecosystem o ansawdd uchel yn y tymor hir. Fodd bynnag, yn ôl yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), ni cheir llawer o reoli, neu ddim rheoli o gwbl, ar tua 40% o goetiroedd Cymru [80,000 ha] ac mae hynny'n lleihau eu gwytnwch a'u gallu i ddarparu buddion lles.[113] Mae'r bennod hon yn trafod rheoli coetiroedd, iechyd coed, planhigfeydd conwydd, coetiroedd hynafol, a'r egwyddor o blannu'r "coed iawn yn y lleoedd iawn".

Rheoli coetiroedd

104. Datgelodd adroddiad SoNaRR fod statws cadwraeth cynefinoedd coetir dynodedig yng Nghymru (sy'n cynrychioli tua 5% o holl goetir Cymru) yn parhau i fod yn anffafriol at ei gilydd, ond fod hyn yn gwella mewn ymateb i gamau rheoli wedi'u targedu.

105. Y tu allan i safleoedd dynodedig, mynegodd ymatebwyr yn cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r RSPB bryder ynghylch y diffyg rheoli coetiroedd yng Nghymru. Mae hyn yn bryder neilltuol o ran coetiroedd mewn dwylo preifat, oherwydd ers cael gwared â chynllun Rheoli Coetiroedd Glastir, ni fu unrhyw system benodol i roi cymorth ariannol er mwyn sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth na chanlyniadau amgylcheddol eraill. Dywedodd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol:

> "… reversing the fortunes of woodland biodiversity and developing our native broadleaved woodlands to deliver their full range of potential benefits will require a step change in the rate of introduction of traditional woodland management into privately owned woodlands."[114]

106. Fodd bynnag, awgrymodd David Edwards (Tilhill Forestry) nad oes rhaid cael cyllid ar gyfer rheoli coetiroedd conifferaidd:

> "I think grants are good for woodland creation, but in terms of ongoing management—some of my colleagues might shoot me for this, but, generally, forestry is getting by without grants in terms of growing commercial crops that the processors want and delivering all the other multiple benefits that come along with commercial forestry."[115]

107. O ran y 80,000 ha o goetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli a ddyfynnwyd yn adroddiad SoNaRR, a'r rheswm am y diffyg rheoli, dywedodd Martin Bishop (Confor):

> "I would urge caution with that figure as we have no reliable means to measure that, it is a very old figure anyway… We do know that most, 95% I think, of commercial softwood is managed so it is the broadleaved resource that is not

[113] Cyfoeth Naturiol Cymru, Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), 2016
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
[115] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 291

managed. Much of this is small scale farm woodlands and this small scale is probably the reason for non-management."[116]

108. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, yr RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru y dylai Coetiroedd i Gymru gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cysyniad o "reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol newydd a sefydlwyd yn Neddf yr Amgylchedd.

109. O ran coetiroedd masnachol, byddai Cyswllt Amgylchedd Cymru yn hoffi gweld safonau gofynnol digonol yn cael eu gosod ar gyfer cynhyrchu pren sy'n ecolegol gynaliadwy,[117] drwy roi Safon Coedwigaeth y DU (UKFS)[118] ar waith yn llawn, ac annog pobl i ddilyn Safon Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS)[119].

110. Dywedai papur Tilhill Forestry hyn:

> "Modern forests managed as a minimum to the UK Forest Standard (UKFS) and often to the more exacting UKWAS make a positive contribution to biodiversity and landscapes with limits on the proportion of single species and the promotion of open space, native broadleaves, natural reserves and long term retentions."[120]

111. Fodd bynnag, pwysleisiodd Frances Winder (Coed Cadw) a Jonathan Cryer (RSPB) nad oedd fawr o fonitro ar gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU, a'i bod yn anorfodadwy ac yn cael ei hanwybyddu'n aml.[121]

112. Ymatebodd David Edwards (Tihill Forestry) i hyn trwy ddweud bod cydymffurfio â'r UKFS yn cael ei fonitro pan fydd ymyriad yn y coetir y mae gofyn caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru iddo,[122] h.y. wrth blannu neu gwympo coed, tra bod y safon uwch, sef UKWAS, yn destun archwiliad annibynnol rheolaidd. Ychwanegodd Hamish MacLeod (BSW Timber) fod rheidrwydd masnachol i reoli coedwigoedd hyd at safon UKWAS, gan fod hynny'n ofynnol er mwyn i'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd ardystio cynnyrch pren.[123]

Iechyd coed

113. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru effaith Clefyd y Llarwydd (Phytophthora ramorum), gan bwysleisio'r angen i ymdrechu'n barhaus i fynd i'r afael â'r clefyd. Trafododd Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd y Clefyd Coed Ynn (Fraxineus Hymenoscyphus). Dywedodd fod plannu egin blanhigion a fewnforiwyd a oedd wedi'u heintio wedi gwneud pethau'n waeth o ran lledaenu'r clefyd, ac argymhellodd y dylid creu mwy o goetiroedd newydd yn y dyfodol drwy aildyfiant naturiol, neu drwy ddefnyddio stoc cartref.

---

[116] Gohebiaeth ddilynol gan Confor
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru
[118] UKFS yw'r safon y cyfeirir ati o ran rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU. Mae UKFS (ynghyd â chyfres o ganllawiau ar fioamrywiaeth, newid hinsawdd, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd, pobl, pridd a dŵr) yn amlinellu'r cyd-destun i goedwigaeth yn y DU. Mae'n nodi sut mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn ymdrin â rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, yn diffinio safonau a gofynion, ac yn darparu sylfaen i reoleiddio a monitro.
[119] Mae UKWAS yn mynd law yn llaw ag UKFS. Mae'n darparu safon archwilio gyffredin i'w defnyddio wrth ardystio'n annibynnol fod coetiroedd yn y DU yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Cyhoeddwyd UKWAS gyntaf yn 2000 a chyhoeddwyd y trydydd argraffiad (a'r un cyfredol) yn 2012.
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig Tilhill Forestry
[121] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 50
[122] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 344
[123] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Mehefin 2017, paragraff 352

114. Dywedodd Frances Winder (Coed Cadw) wrth y Pwyllgor y gallai dull Cyfoeth Naturiol Cymru o fynd i'r afael â'r ddau glefyd fod yn gliriach. O ran y Clefyd Coed Ynn, dywedodd nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynd i'r afael eto â chefnogi perchnogion coetiroedd i blannu stoc newydd yn lle coed ynn sydd wedi'u cwympo.[124] O ran y Clefyd Llarwydd mynegodd bryder fod contractwyr coedwigaeth, nad ydynt byth yn glanhau'u cyfarpar, wedi cyfrannu at ledaeniad y clefyd, ac roedd yn tybio nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru efallai wedi rhoi cyngor digonol i'r sector.[125]

115. Mewn gohebiaeth gyda'r Pwyllgor, beirniadodd Martin Bishop (Confor) y "syniadaeth safonol" y gellir gwneud coedwigoedd yn fwy gwydn i wrthsefyll clefydau trwy blannu amrywiaeth o rywogaethau. Nododd fod arfer o'r fath yn dileu gallu'r goedwig i dalu am ei rheolaeth ei hun gan ei bod bron yn amhosibl cynaeafu cynnyrch o goetir amrywiol mewn modd economaidd.[126] Yn lle hynny awgrymodd y dylai arallgyfeirio ddigwydd ar raddfa ehangach, gyda brithwaith o wahanol flociau o goetir (pob un yn cynnwys un rhywogaeth ac un dosbarth oed yn bennaf) yn cysylltu â'i gilydd. Yn y modd hwn,

> "…areas designated for commercial crops would be large enough to harvest economically and native broadleaved areas would be large enough to provide biodiversity."[127]

Planhigfeydd conwydd a llwyrgwympo

116. Er eu bod yn cydnabod mai planhigfeydd conwydd yw cartref olaf rhai o rywogaethau bywyd gwyllt 'eiconig' Cymru, fel y wiwer goch a'r rugiar ddu, disgrifiodd rhai ymatebwyr yr effeithiau negyddol y gall y planhigfeydd hyn eu cael ar ansawdd yr amgylchedd. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

> "Afforestation especially of coniferous forests have had many significant detrimental adverse impacts upon the quality of the Welsh environment, ecosystems services and biodiversity. Many important habitats have been lost directly, and/or been highly fragmented, by past conversion to forestry plantation. 'Low grade agricultural land' is particularly at risk because it is often targeted for afforestation but tends to be the best areas for existing biodiversity or ecosystem service provision e.g. peatland and carbon sequestration."[128]

117. Mae'r Continuous Cover Forestry Group yn erbyn llwyrgwympo (clear felling) hyd yn oed blanhigfeydd sy'n cynnwys coed o'r un oedran, a byddai'n well ganddo pe bai coed yn cael eu torri drwy broses ddetholus i greu coetiroedd sy'n amrywiol o ran strwythur, edrychiad a bioleg. Dywedodd nad oes angen i'r dull hwn fod yn fwy costus na rheoli drwy lwyrgwympo. Cytunai Frances Winder (Coed Cadw) â'r pwynt hwn.[129]

118. Fodd bynnag, dadleuodd Martin Bishop (Confor) fod angen cymysgedd o gonwydd a choed llydanddail, a chymysgedd o goedwigaeth gorchudd parhaus a llwyrgwympo.

---

[124] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 108
[125] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 111
[126] Gohebiaeth dilynol Confor
[127] Llythyr gan Martin Bishop, Confor, 6 Gorffennaf 2017
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaethau Natur Cymru
[129] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 50

Diogelu coed a choetiroedd hynafol

119. Mynegodd y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol a'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd bryder ynghylch cyflwr coetiroedd hynafol Cymru. Dywedodd y Panel:

> "Most ancient semi-natural woodland in Wales is in unfavourable condition. As much of it is also unmanaged, it is difficult to see how this might change without new models of support and incentives to woodland owners."[130]

120. Roedd y rhai a ymatebodd yn gyffredinol yn cefnogi'r nod o adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol drwy gael gwared â rhywogaethau estron, masnachol yn aml, o goed. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch y cynnydd araf sy'n cael ei wneud. Dywedodd Coed Cadw ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru ailfynegi ei hymrwymiad i'r nod hwn oherwydd yr enillion 'enfawr' o ran bioamrywiaeth a ddeuai yn sgil adfer coetiroedd hynafol.

121. Fodd bynnag, mae effaith y polisi i adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol yn destun pryder i'r sector coedwigaeth fasnachol. Dywedodd Confor a Tilhill Forestry ill dau y byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar argaeledd pren meddal ac ar incwm, oni bai fod safleoedd amgen yn cael eu darparu. O'r herwydd, maent yn amharod i adfer eu safleoedd.

122. Anghytunai Ms Winder (Coed Cadw) gan ddweud, os yw coetiroedd wedi cael eu rheoli'n briodol, yna bydd cam nesaf y cynllun i adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol yn gwneud arian, ac nad yw felly'n broblem.[131] O ran incwm masnachol cyson, fodd bynnag, roedd yn cytuno bod rhai problemau o ran hynny.[132]

Y coed iawn yn y lle iawn

123. Roedd nifer o ymatebwyr (RSPB, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Cymdeithas yr Hosteli Ieuenctid) yn cefnogi'r egwyddor o blannu'r coed iawn yn y lle iawn, fel y nodir yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (2016) (SoNaRR).

124. Fodd bynnag, roedd Martin Bishop (Confor) yn feirniadol o'r ymadrodd hwn:

> "'Right tree in the right place' was a much used phrase that we believe is unhelpful. It is largely a meaningless phrase as it is open to interpretation, just what is the right tree for any place is not defined anywhere… [Different stakeholders] would have differing views about which was the right tree, all would depend on the individuals' or organisations' aspirations for the woodland or place."[133]

125. Mae'r RSPB a Choed Cadw yn gweithio gyda'i gilydd i lunio rhai egwyddorion cyffredinol ynghylch yr hyn a olygir gan yr ymadrodd.

Safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru

126. Awgrymodd Peter Garson (CNC) y dylai cyfran y coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli gael ei gostwng o 40%, ond nododd:

---

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd
[131] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 103
[132] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 103
[133] Gohebiaeth ddilynol Confor

> "…to bring those woodlands into more active management will take some resource… it needs some advice to owners and also we don't currently have a grant scheme that funds intervention… so, a lot of these sites are inaccessible, they don't have tracks, so you need some initial investment to make them viable to manage."[134]

127. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, erbyn mis Chwefror 2017, canfuwyd bod tua 8,850 hectar o larwydd yng Nghymru wedi'u heintio. Nid yw llarwydd yn cael eu defnyddio mwyach i ailstocio'r ystâd goed gyhoeddus. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y ffwng wedi'i ganfod mewn 63 y cant o'r sgwariau grid 10 cilometr ledled Cymru a'i fod bellach yn gyffredin yn yr amgylchedd ehangach.

128. O ran y cynnydd araf o safbwynt adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y diffyg cyllid ar gyfer rheoli coetiroedd yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd perchnogion coetiroedd masnachol yn dewis ailblannu'r safleoedd hyn gyda rhywogaethau brodorol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael gwared yn raddol â rhywogaethau estron ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, ond roedd rhai safleoedd yn ddegau o filoedd o hectarau.[135]

129. Cytunai Cyfoeth Naturiol Cymru â'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r egwyddor o blannu'r "goeden iawn yn y lle iawn", gan ddweud:

> "SoNaRR highlighted that planting the right trees in the right place is the single action most likely to derive the greatest benefit in terms of delivering the sustainable management of natural resources (SMNR) and making a significant contribution to Wales' well-being goals… The location and design of planting, including that in urban areas, needs to be carefully considered to maximise these benefits whilst avoiding damage to the structure and functioning of other priority open habitats."[136]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

130. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd yn ymwybodol o'r ffigur o 40% o goetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli, ond y byddai'n ystyried ail-agor cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir i helpu i fynd i'r afael â hyn.

131. Nododd y dull gweithredu yn strategaeth rheoli Clefyd Llarwydd Llywodraeth Cymru - cwympo coed dan reolaeth mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o'r haint, a chwympo wedi'i dargedu i atal y clefyd rhag lledaenu mewn ardaloedd o ddim haint neu haint ysgafn iawn. O ran y Clefyd Coed Ynn, roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm ymateb gweithredol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i arwain ei hymateb i'r clefyd. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Ynn efallai yn wytnach na Llarwydd, felly ni ddylai coed ynn gael eu cwympo oni bai eu bod yn beryglus.

132. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen coed conwydd a llydanddail fel rhan o goetiroedd amrywiol iawn. O ran coetiroedd hynafol, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet hyn:

> "Trees and woodland which have high environmental values (including ancient woodland sites, ancient, veteran and heritage trees) are an irreplaceable

[134] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraffau 161-165
[135] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 152
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru

> resource which can provide a wide range of benefits. They should be managed so their condition steadily improves."[137]

133. Ni wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet sôn am ba rai fyddai'r coed 'iawn', ond disgrifiodd y lleoliad gorau ar gyfer plannu coed newydd fel a ganlyn:

> "A continued increase in tree cover and woodlands wherever it can contribute positively to ecosystem resilience and wellbeing is needed. New woodland should be created and trees planted to provide greater connectivity between, and increase the size of, woodland habitat and to address other challenges identified in NRW's [SoNaRR report], in both rural and urban areas."[138]

Ein barn ni

Rheoli coetiroedd

Credir bod 40% o goetiroedd Cymru heb fod yn cael eu rheoli (yn bennaf coetiroedd llydanddail sy'n eiddo preifat), gan arwain at ddiffyg bioamrywiaeth a methiant i wireddu'r manteision amgylcheddol posibl. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailgyflwyno cynllun grant Rheoli Coetiroedd Glastir, ac i osod targed i haneru cyfran y coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli yng Nghymru.

O ran coetiroedd masnachol, dim ond pan ofynnir am ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau plannu neu gwympo y mae cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn cael ei fonitro. Felly, mae pryderon nad yw'r safonau ecolegol gofynnol yn cael eu bodloni. Rydym yn cefnogi galwadau gan randdeiliaid amgylcheddol ar i Lywodraeth Cymru annog manteisio ar y safon uwch, Safon Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS), a hynny efallai drwy hyrwyddo mwy ar gynhyrchion pren sydd wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd. Ar ben hynny, pe bai cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir yn cael ei ailgyflwyno, rydym yn argymell ei fod yn ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio ag UKWAS.

Planhigfeydd conwydd ac iechyd coed

Rydym yn rhannu cred y rhanddeiliaid y dylai coetiroedd fod yn gymysg, o ran rhywogaethau a strwythur oedran; fodd bynnag, teimlwn y dylai hyn ddigwydd ar raddfa'r dirwedd yn hytrach nag ar raddfa leol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i argymell dull mosaig o gynllunio a rheoli coetiroedd, yn cynnwys blociau cysylltiedig o goed (a chynefinoedd eraill) yn gwasanaethu gwahanol ddibenion. Byddai hyn o fudd i weithrediadau coedwigaeth, bioamrywiaeth, darparu gwasanaethau ecosystem, a'r gallu i wrthsefyll clefydau coed.

Mae gennym rai pryderon ynghylch ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i achosion diweddar o'r Clefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd. Ymddengys bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithredu gyda llai o gyd-drefnu a thryloywder na'r cyrff cyfatebol yn Lloegr a'r Alban ynghylch y Clefyd Llarwydd, ac mae rhanddeiliaid yn pryderu nad oes unrhyw gynllun o hyd i gefnogi'r rhai sydd wedi colli coed i'r clefydau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac rydym yn argymell y dylai hyn arwain at bolisi strategol cadarnach fel bod yr ystâd yn llai tueddol o ddioddef o afiechydon yn y dyfodol. Rydym yn cefnogi gofyniad Cyfoeth Naturiol Cymru

[137] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[138] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

i ddefnyddio coed cartref yn hytrach na choed ifanc wedi'u mewnforio wrth ailstocio ar dir cyhoeddus, ac yn annog ymestyn hyn i dir preifat.

Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol

Mae coetiroedd hynafol yn gyfrannwr pwysig i fioamrywiaeth a thirwedd Cymru ac rydym yn cymeradwyo dymuniad Llywodraeth Cymru i adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol. Fodd bynnag, tra mae bod rhwystrau rheoleiddio rhag creu coetiroedd conwydd newydd, ac nad oes arian ar gael i reoli coetir llydanddail preifat, nid yw'n realistig disgwyl i blanhigfeydd gael eu hadfer ar safleoedd coetiroedd hynafol. Rhaid mynd i'r afael â'r materion rheoleiddiol ac ariannol hyn.

Y coed iawn yn y lleoedd iawn

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o blannu'r coed iawn yn y lleoedd iawn (fel sy'n cael ei hyrwyddo yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol[139]) er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision coed a choetiroedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryder nifer o randdeiliaid fod y term yn rhy eang ac yn agored i'w ddehongli, yn dibynnu ar safbwyntiau gwahanol. Rhaid i strategaeth Coetiroedd i Gymru dynnu ar yr ymchwil sydd ar gael i bennu beth yw'r mathau mwyaf addas o goed, y dulliau rheoli mwyaf addas a'r lleoliadau plannu gorau er mwyn cyflawni pob un o'i nodau.

Argymhellion

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno Cynllun Rheoli Coetiroedd Glastir a sicrhau bod y plannu'n bodloni gofynion Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ei strategaeth o ran iechyd coed yn dangos y gwersi a ddysgwyd o'r achosion o Glefyd Coed Ynn a Chlefyd Llarwydd.

[139] Cyfoeth Naturiol Cymru, Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), 2016

06. Rhoi Coetiroedd i Gymru ar waith yn y dyfodol

Mae'r bennod hon yn edrych ar sut y gallai strategaeth Coetiroedd i Gymru gael ei gwella ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, mae'n edrych ar rôl y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd[140], sut mae'r strategaeth yn cyfrannu tuag at Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r cyfleoedd sy'n codi o Brexit.

Y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd

134. Diben y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar weithredu Coetiroedd i Gymru a datblygu polisi coetiroedd yn fwy cyffredinol. Mae hefyd yn gweithredu fel canolwr os ceir anghydfod rhwng y sector preifat a Llywodraeth Cymru. Cafodd aelodaeth y panel ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Mawrth 2017,[141] ac mae'r penodiadau'n para am o leiaf 2 flynedd.

135. Wrth sôn am y Panel Cynghori dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru "fod angen adfywio'r grŵp ac iddo fod yn fwy deinamig ei agwedd".[142] Awgrymodd y dylai'r Panel gael ei gysylltu'n well â grwpiau rhanddeiliaid sy'n rhoi arweiniad i'r Llywodraeth ar bolisi a rhaglenni gwledig a datblygu economaidd, ac y dylai fod yn fwy effeithiol yn ysgogi gweithredu ar draws adnodd coedwigoedd Cymru gyfan er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol o dan y strategaeth.

136. Awgrymodd Jonathan Cryer (RSPB) y dylai'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd gael ei agor i ystod ehangach o randdeiliaid, yn benodol buddiannau amgylcheddol a hamdden.[143] Ychwanegodd Ms Winder (Coed Cadw) fod y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd wedi canolbwyntio ar fanylion yn hytrach nag edrych ar y darlun ehangach.[144]

137. Mewn gohebiaeth gyda'r Pwyllgor, dywedodd Martin Bishop (Confor) fod sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynglŷn â rôl a diben y Panel Cynghori wedi peri dryswch iddo:

> "…there seems to be a misunderstanding on the role and purpose of WSAP and presuppose the role of WSAP as being much wider than it actually is. WSAP is an advisory panel to WG, it is not an advisory panel to NRW nor is it expected to comment on forestry or any other matters to a wider audience."[145]

138. Aeth ymlaen i ddweud mai gwirfoddolwyr yw'r aelodau, sy'n cyfarfod yn chwarterol, a phe bai'r Pwyllgor yn dymuno argymell rôl ehangach i'r Panel Cynghori, yna dylai hefyd argymell bod Llywodraeth Cymru'n neilltuo arian ychwanegol i alluogi hyn.

---

[140] Mae'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i roi Coetiroedd i Gymru ar waith.
[141] Diweddarwyd aelodaeth y panel ddiwethaf ym mis Mawrth 2017.
[142] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru
[143] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 128
[144] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 129
[145] Gohebiaeth ddilynol Confor

Cyfraniad tuag at Ddeddf yr Amgylchedd a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

139. Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[146] yn gyfraith ym mis Ebrill 2015 gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd[147] yn galluogi dull mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Daeth yn gyfraith ym mis Mawrth 2016.

140. Disgrifiodd y rhai a ymatebodd i'r ymchwiliad fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol coetiroedd gan nodi bod y sector mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni nodau'r ddwy Ddeddf.

141. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol weithio tuag at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant.[148] Fodd bynnag, nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru, yr RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru nad yw Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru (2015-2020)[149] yn cynnwys y nod o greu "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang", er ei fod yn cynnwys y chwe nod llesiant arall. Dywedodd yr RSPB:

> "'Globally Responsible Wales' is not included in the Action Plan, yet should be a constant focus alongside other elements of the Strategy requiring carbon sequestration and provision of habitat for internationally important species."[150]

142. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, yr RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru hefyd y dylai Coetiroedd i Gymru fod yn rhan annatod o'r Datganiadau Ardal sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd, a'r Cynlluniau Llesiant Lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Cefnogwyd y pwynt hwn gan Alec Dauncey (Prifysgol Bangor):

> "The development of area statements is going to be the key… they bring all those issues together and have a degree of spatial explicitness that looks at a key area, looks at the interaction with the communities, and the different characteristics or the ability to grow timber or biodiversity values or whatever in a particular area."[151]

Cyfleoedd sy'n codi o Brexit

143. Roedd cynrychiolwyr y sector coedwigaeth fasnachol yn gweld Brexit fel cyfle. Esboniodd Tilhill Forestry:

> "We have a massive market for home grown timber on our doorstep without the need to trade beyond our shores. The fall in sterling which is predicted to continue should be a benefit in making home grown more competitive. It is assumed subsidies will be reduced for farmers which should make more marginal land available to plant and at lower land prices."[152]

---

[146] Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llesian Cenedlaethau'r Cyfodol (Cymru) 2015 fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith tymor hir eu penderfyniadau, yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac yn atal problemau sydd wedi gwreiddio'n ddwfn megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.
[147] www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572
[148] Nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[149] Coetiroedd i Gymru: Cynllun Gweithredu (2015-2020)
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig yr RSPB
[151] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 238
[152] Tystiolaeth ysgrifenedig Tilhill Forestry

144. Ychwanegodd BSW Timber:

> "[The Welsh Government] must use the opportunity of leaving the EU to completely review its post-CAP land support mechanisms and give forestry the place it deserves."[153]

145. Roedd cefnogaeth gref hefyd ymysg y rhanddeiliaid amgylcheddol i goedwigaeth gael ei chynnwys o fewn polisi rheoli tir cynaliadwy ôl-Brexit. Er enghraifft, dywedodd Coed Cadw:

> "We have the opportunity now to develop a single new sustainable land management policy for Wales and investment of public money in an incentive framework that is locally designed and delivered, outcome focused and secures benefits for people, the environment and nature as well as an economic future for land managers."[154]

146. O ran sut y caiff polisi ac ariannu sydd wedi'u seilio ar fudd eu gwireddu ar ôl Brexit, dywedodd Elizabeth Robinson (Prifysgol Reading):

> "…there's certainly a lot of excitement and ability from the environmental economics community to be able to address these questions."[155]

Safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru

147. Wrth sôn am y Panel Cynghori dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru "fod angen adfywio'r grŵp ac iddo fod yn fwy deinamig ei agwedd" ac y gallai fod yn llawer mwy o rym gyrru.[156] Ychwanegodd Michelle van-Velzen (CNC) y dylai'r Panel gysylltu'n well ag eraill, yn cynnwys bwrdd crwn y Gweinidog ar Brexit, y trydydd sector, a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - fodd bynnag, nid oedd ganddo unrhyw awdurdod i ymwneud â'r olaf.[157]

148. Wrth ddatblygu Cynlluniau Llesiant, awgrymodd Michelle van-Velzen (CNC) mai fel hyn y dylai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu:

> "It will get a whole bunch of stakeholders around the table to actually agree that we would like new woodland of this type in these types of areas, and I also think that the development of Area Statements will help in that process, too."[158]

149. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai Coetiroedd i Gymru gyd-fynd â'r Polisi ar Adnoddau Naturiol. Y dyddiad cau statudol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Polisi ar Adnoddau Naturiol oedd mis Mawrth 2017; fodd bynnag, nid oedd wedi'i gyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2017.

150. Dywedodd Peter Garson (CNC) bod y PAC yn rhwystr mawr rhag creu coetiroedd ar ffermydd gan fod y taliadau am gynnyrch amaethyddol yn rhy uchel yn ôl yr herwydd.[159] Ychwanegodd y dylid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o fanteision ariannol coedwigaeth o'i chymharu â ffermio.[160]

---

[153] Tystiolaeth ysgrifenedig BSW Timber
[154] Tystiolaeth ysgrifenedig Coed Cadw
[155] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 24 Mai 2017, paragraff 179
[156] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 73
[157] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 81
[158] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 26
[159] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 103
[160] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 132

Nododd Michelle van-Velzen (CNC) y dylai cynlluniau ariannu newydd ar ôl i'r PAC ddod i ben annog ystod ehangach o fathau o goetiroedd (yn cynnwys cynefinoedd agored â dim ond 20% o orchudd coed) yn ogystal â choetiroedd mwy o faint:

> "You know, the new, big forests of Wales, because that's where the big gains are going to come, particularly in terms of hectarage, and the ability to have good quality forest products coming out."[161]

151. Awgrymodd Michelle van-Velzen (CNC) hefyd y dylid gwneud mwy o ddefnydd o ffynonellau ariannu amgen, yn cynnwys arian digolledu gan ddatblygwyr, buddsoddiadau preifat, a'r Cod Carbon Coetiroedd.[162]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

152. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod newid radical yn angenrheidiol i gyrraedd y targed o greu 100,000 ha o goetiroedd newydd rhwng 2010 a 2030.[163] Roedd ei rhagflaenydd wedi ystyried gostwng y targed plannu blynyddol o 5,000 ha i 2,000 ha, ond roedd hi wedi ymrwymo i gadw'r targed mwy uchelgeisiol, o ystyried bygythiad y newid yn yr Hinsawdd.[164] Dywedodd y byddai gofyn am fwy o weithio mewn partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn cyrraedd y targed hwn, ac y byddai'r strategaeth yn cael ei hadnewyddu erbyn dechrau 2018 i helpu i gyflawni hyn.[165]

153. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai diben y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd oedd rhoi cyngor iddi hi. Credai ei fod yn gweithio'n dda ac nid oedd ganddi unrhyw feirniadaeth ohono.[166] O ran pa un a ddylai'r aelodaeth gael ei hymestyn i gynnwys cynrychiolaeth o blith rhanddeiliaid amgylchedd a hamdden, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod hi'n siarad yn uniongyrchol â'r grwpiau hyn. Cadarnhaodd fod y panel wedi'i ailbenodi ym mis Mawrth am gyfnod o dair blynedd. Byddai'n canolbwyntio ar arloesi ym maes plannu coed ac ariannu, ac yn cysylltu â thargedau iechyd a choed a gorchudd coetir.[167]

154. Dywedai papur yr Ysgrifennydd Cabinet hyn am goed, coetiroedd a choedwigoedd:

> "...[they are] a vital element of our Natural Resources Policy and the key to the delivery of our ground-breaking Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and the Environment (Wales) Act 2016."[168]

155. Mewn tystiolaeth lafar cadarnhaodd fod cyhoeddi'r Polisi ar Adnoddau Naturiol wedi'i ohirio o fis Mawrth, ond ei fod bron yn barod bellach.[169] Roedd wedi cael ei drafod yng nghyfarfodydd y Gweinidogion ar Brexit, a rhagwelir y bydd angen deddfwriaeth newydd.

156. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Coetiroedd i Gymru yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu arni wrth i Gymru wynebu heriau a chyfleoedd Brexit a datblygu marchnadoedd rhyngwladol.

---

[161] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 41
[162] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 44
[163] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 204
[164] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraffau 214 a 285
[165] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 362
[166] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 262
[167] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraffau 270-271
[168] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[169] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 6 Gorffennaf 2017, paragraff 199

157. O ran darparu arian ar gyfer buddion amgylcheddol yn y dyfodol, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Taliadau am Wasanaethau Ecosystem[170] a fyddai'n targedu arian tuag at reolwyr tir sy'n sicrhau newidiadau cadarnhaol o ran bywyd gwyllt, ansawdd dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd, iechyd a lles.[171]

Ein barn ni

Symud y strategaeth ymlaen

Er bod cynnydd yn cael ei wneud o dan thema Coetiroedd i Bobl, mae'n amlwg o'n trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid fod y diffyg difrifol o ran creu coetiroedd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf yn atal cyflwyno llawer o agweddau eraill ar y strategaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag creu coetiroedd fel mater o frys.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cytuno i adnewyddu Coetiroedd i Gymru erbyn dechau 2018, a'r ffaith ei bod yn agored i syniadau radical, oherwydd teimlwn fod yn rhaid gwella'r strategaeth (a'r ffordd y caiff ei rhoi ar waith) yn sylweddol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o ffocws ar fanteision economaidd coedwigaeth fasnachol, ac i roi blaenoriaeth i ddulliau ariannu arloesol i sicrhau buddion cyhoeddus o goed a choetiroedd trefol a gwledig. Mae'r penderfyniad i adael yr UE yn creu her newydd i wella cynaliadwyedd rheoli tir yng Nghymru, ac i integreiddio coedwigaeth yn well ag amaethyddiaeth.[172]

Rhaid i'r Polisi ar Adnoddau Naturiol sy'n cael ei ddatblygu, a'r ffordd y caiff ei roi ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gyd-fynd â Choetiroedd i Gymru. Rhaid i'r strategaeth ddiwygiedig gyd-fynd yn benodol hefyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylid ei gwneud yn ofynnol hefyd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gyflawni amcanion Coetiroedd i Gymru drwy eu Cynlluniau Llesiant Lleol a'r Datganiadau Ardal.

Yng ngoleuni safbwyntiau croes ynglŷn â phwrpas y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu Cylch Gorchwyl y Panel i'r cyhoedd. Dylai ehangu aelodaeth y Panel i gynnwys yr holl brif randdeiliaid, a nodi'n glir yr hyn y mae'r Panel yn ceisio'i wneud er mwyn symud y strategaeth yn ei blaen. Rydym yn cefnogi barn Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd fod yn fwy effeithiol o ran ysgogi newid, ac y dylid ei annog i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Arloesi o ran y drefn ariannu ar ôl gadael yr UE

Caiff y PAC ei ystyried yn rhwystr sylweddol rhag plannu coed, o safbwynt ariannu a hefyd am ei fod yn hybu'r rhaniad diwylliannol rhwng ffermio a choedwigaeth. Mae Brexit yn gyfle i gael gwared â'r rhaniad hanesyddol ac artiffisial hwn, ac i ddatblygu un cynllun rheoli tir cynaliadwy, integredig. Dylai hyrwyddo amaeth-goedwigaeth, coetiroedd mawr, a brithwaith o wahanol fathau o goetiroedd fod yn rhan allweddol o hyn.

---

[170] Mae **Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem** yn golygu taliadau i reolwyr tir ac eraill i gynyddu gwytnwch ecosystemau a darparu buddion cyhoeddus.
[171] Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
[172] Mae canfyddiadau ein hymchwiliad i **Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru (PDF 2 MB)** hefyd yn berthnasol yma.

Dylai strategaeth ddiwygiedig Coetiroedd i Gymru fod yn rhagweithiol yn nodi cynigion arloesol o ran ariannu ôl-Brexit. Yn benodol, rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio i ddatblygu Taliadau am Wasanaethau Ecosystem. Fodd bynnag, rydym yn annog hyn i fynd y tu hwnt i'r ffocws arferol ar garbon ac ansawdd dŵr a chynnwys pob budd sy'n deillio o wasanaethau ecosystem, a chwmpasu amgylcheddau gwledig a threfol. Er enghraifft, mae Grangetown Werddach a Choetir Ysbryd y Llynfi yn enghreifftiau gwych o gyfraniadau sector preifat tuag at reoli dŵr a manteision iechyd mewn lleoliadau trefol a lled-drefol.

Drwy drin coetir fel math o seilwaith, mae ystod o ddewisiadau ariannu yn bosibl. Dylai Llywodraeth Cymru felly ymchwilio i ddulliau arloesol o ariannu coetir. Er enghraifft, trwy fentrau cyhoeddus-preifat, cynlluniau pensiwn cyhoeddus, buddsoddwyr preifat, benthyciadau, arian digolledu gan ddatblygwyr, arian loteri a threthi. Rydym hefyd yn cefnogi cynnig Cyfoeth Naturiol Cymru i gysylltu'r prosesau rheoleiddio ac ariannu er mwyn ei gwneud yn symlach creu coetiroedd.

Ar gyfer cymoedd de Cymru yn arbennig, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o ffurfio Cwmni Coedwig Cenedlaethol i Gymru i weithio gyda ffermwyr ac awdurdodau lleol.

Argymhellion

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn cael ei rhoi ar waith trwy:

- Mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag creu coetiroedd fel mater o frys.
- Adolygu'r strategaeth erbyn dechrau 2018, a nodi sut y bydd hi'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, ac yn cael ei chefnogi ganddyn nhw.
- Gwella tryloywder a grym y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd i yrru'r strategaeth ymlaen.

Argymhelliad 13. Fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y drefn ariannu yn y dyfodol yn cael ei seilio ar ganlyniadau cynaliadwy. Gallai'r drefn hon gael ei chefnogi trwy ddulliau arloesol megis Taliadau am Wasanaethau Ecosystem a chronfeydd pensiwn yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd.

Atodiad A – Tystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae modd gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: **Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Sefydliad / Enw

Unigolyn x 5

Cymdeithas Ceffylau Prydain - Swyddog Mynediad Sirol a Llwybrau ar gyfer Sir Benfro

Yr Athro D Skydmore - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Cymdeithas Ceffylau Prydain - Cadeirydd Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU

Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd

Cymdeithas Ceffylau Prydain - Swyddog Mynediad a Llwybrau Ceffylau ar gyfer Cymru

Cymdeithas Ceffylau Prydain

Y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol

Continuous Cover Forestry Group (CCFG)

Coed Cadw

Awdurdodau'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru

Confor

Ymgynghorydd Coedwigaeth a Materion Amgylcheddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol

Marchogwr ac aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain

Grŵp BSW Timber

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Cymdeithas Eryri

Cyngor Sir y Fflint

Y Gynghrair Cefn Gwlad

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

CLA Cymru

Prifysgol Bangor

Tilhill Forestry Limited

Cymdeithas Hosteli Ieuenctid Cymru a Lloegr (YHA)

Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru)

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB Cymru)

Undeb Amaethwyr Cymru

Llythyr gan Martin Bishop (Confor), 6 Gorffennaf 2017

Atodiad B – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn: **Trawsgifiadau**

24 Mai 2017

Tyst	Sefydliad
Jonathan Cryer	Swyddog Polisi Defnydd Tir, RSPB Cymru
Frances Winder	Arweinydd Polisi Cadwraeth, Coed Cadw
Dr Alec Dauncey	Cydymaith Addysgu, Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, Prifysgol Bangor
Yr Athro Elizabeth Robinson	Athro Economeg Amgylcheddol, Prifysgol Reading

14 Mehefin 2017

Tyst	Sefydliad
Martin Bishop	Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Confor
David Edwards	Rheolwr Ardal, Tilhill Forestry
Hamish Macleod	Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BSW Timber

6 Gorffennaf 2017

Tyst	Sefydliad
Michelle van-Velzen	Arweinydd y Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Cyfoeth Naturiol Cymru
Peter Garson	Pennaeth Gweithrediadau Masnachol, Cyfoeth Naturiol Cymru
Lesley Griffiths AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Chris Lea	Dirprwy Gyfarwyddwr Tir, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru
Bill MacDonald	Pennaeth y Gangen Polisi Adnoddau Coedwigaeth, Llywodraeth Cymru

Yn bresennol – Seminar Rhanddeiliaid – Maesteg

Sefydliad	Cynrychiolydd
Llais y Goedwig	Sasha Ufnowska, Swyddog Meithrin Gallu yn ne Cymru
Ramblers Cymru	Rebecca Brough, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth, Cymru
Cymdeithas Ceffylau Prydain	Mark Weston, Cyfarwyddwr Mynediad
Y Gynghrair Cefn Gwlad	Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cymru
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain	Ian Danby, Pennaeth Prosiectau Bioamrywiaeth
BikePark Wales	Daniel Gomm, Rheolwr y Ganolfan – BikePark Wales
Trail Rides Wales	Marianne Walford
Legal Forest Riders	Jonathan Barrett
Trail Riders Fellowship Limited	Robin Hickin, Cynrychiolydd Cenedlaethol Cymru
Rhwydwaith Gwirfoddoli Cefn Gwlad Pen-y-bont ar Ogwr	Mark Blackmore, Cydlynydd Datblygu Gwledig Rob Jones, Swyddog Rheoli Cefn Gwlad Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr
Coed Cadw	Sam Packer, Swyddog Ymgyrchoedd – Cymru
Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr	Fay Calloway, Rheolwr Clwstwr Jeremy Dimond, Swyddog Prosiect Byw'n Iach
Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Gymdeithas Hosteli Ieuenctid	Rowland Pittard
Ymddiriedolaeth Treadlightly	Duncan Green, Cadeirydd
Grŵp Coetir Cwm Llynfi	John a Vivienne Herd
Grŵp Coetir Cwm Llynfi	Noel Thomas